GRŴP LLANDRILLO MENAI

ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL

AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2018

GRŴP LLANDRILLO MENAI

DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2018

Cynnwys **Tudalen**

Adroddiad Blynyddol	3
Datganiad ynghylch Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Mewnol	8
Datganiad ynghylch Cysondeb, Priodoldeb a Chydymffurfiaeth	11
Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth	12
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gorfforaeth Grŵp Llandrillo Menai	13
Datganiadau Cyfunol a Cholegol ynghylch Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	15
Datganiadau Cyfunol a Cholegol ynghylch Newidiadau i Gronfeydd	17
Mantolenni Cyfunol a Cholegol	18
Datganiad Cyfunol ynghylch Llif Arian	19
Nodiadau i gyd-fynd â'r Datganiadau Ariannol	20

GRWP LLANDRILLO MENAI
Adroddiad Blynyddol

Cyflwyna aelodau Bwrdd Corfforaeth Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) eu hadroddiad, a'r datganiadau ariannol a archwiliwyd, am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2018.

1. Statws Cyfreithiol

Sefydlwyd y Gorfforaeth yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i'r diben o redeg Grŵp Llandrillo Menai (y Gorfforaeth). I ddibenion Deddf Elusennau 2011, mae'r Grŵp yn elusen a eithriwyd.

2. Cenhadaeth

Cenhadaeth Grŵp Llandrillo Menai, fel y'i nodir yn y cynllun strategol, yw:

"Ysbrydoli llwyddiant drwy gynnig addysg a hyfforddiant rhagorol"
Dyma'r nodau strategol sy'n ategu'r genhadaeth hon:
1 – Sicrhau llwyddiant rhagorol i'n myfyrwyr
2 – Cefnogi anghenion cyflogwyr o ran sgiliau yn economi ffyniannus Gogledd Cymru
3 – Darparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant drwy bartneriaethau a rhwydweithiau effeithiol
4 – Bod yn sefydliad cynaliadwy sy'n sefydlog yn ariannol

3. Dangosyddion Perfformiad

3.1. Y Ddarpariaeth

Nod y Grŵp yw diwallu anghenion addysgol siroedd Môn, Conwy, Dinbych a Gwynedd drwy ddarparu cyfleoedd addysgol a hyfforddiant o safon uchel. Yn ystod 2017/18, rhoddodd y Grŵp addysg i 13,263 (2016/17: 15,241) o fyfyrwyr Addysg Bellach (5,637 ar gyrsiau llawn amser a 7,626 ar gyrsiau rhan-amser), 1,483 (2016/17: 1,497) o fyfyrwyr Addysg Uwch (514 llawn amser a 969 rhan-amser) a 2,958 (2016/17: 2,630) o fyfyrwyr drwy gontract dysgu seiliedig ar waith y Grŵp (oll yn rhan-amser). Yn ogystal, addysgwyd 4,190 (2016/17: 2,630) ar raglenni dysgu penodol (i ddiwydiant yn aml) nas ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

Roedd y Grŵp £281k yn brin o'r targed a osododd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllido Addysg Bellach yn 2017/18. Darparwyd ar gyfer y swm hwn yn llawn yn y cyfrifon hyn.

3.2. Rhagoriaeth

Dyma oedd canlyniadau'r Grŵp yn yr arolygiadau diwethaf:

Addysg Bellach	Da, gyda rhagolygon ar gyfer gwella, Rhagorol
Dysgu Seiliedig ar Waith	Da, gyda rhagolygon ar gyfer gwella, Rhagorol
Addysg Uwch *	Dim angen gwneud newidiadau hanfodol na newidiadau a ystyrir yn fuddiol
*Yn wahanol i arolygiadau ESTYN, nid yw arolygiadau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn dynodi gradd. Yn lle hynny, gwneir awgrymiadau ar sut i wella arferion, gan eu categoreiddio'n newidiadau hanfodol, buddiol neu ddymunol.	

Mae Estyn wedi newid y drefn o ran arolygu Addysg Bellach. Bellach maent yn ymweld am 3 diwrnod bob blwyddyn i Adolygu Perfformiad yn ogystal â chynnal adolygiadau ar themâu penodol. Ni ddyfernir gradd gyffredinol ar sail yr ymweliadau hyn.

Cynhaliodd Estyn arolygiad o'r ddarpariaeth Addysg Bellach yn 2016/17 gan ddod i'r casgliadau allweddol a ganlyn:

– Mae darpariaeth y Grŵp yn cynnig dilyniant da iawn i ddysgwyr.
– Mae'r Grŵp yn cynnig amrediad helaeth ac eang o ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
– Mae'r Grŵp yn cefnogi iechyd a lles ei ddysgwyr yn dda; mae'r dysgwyr yn elwa ar wasanaethau cefnogi a chwnsela eang sy'n cael eu darparu gan y Grŵp a chan asiantaethau allanol arbenigol
– Mae'r Grŵp wedi sefydlu ethos cadarnhaol cryf ac yn darparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle mae mwyafrif helaeth y dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cefnogaeth dda.
– Mae arweinyddiaeth y Prif Weithredwr yn rhagorol; mae rheolwyr a staff ar bob lefel yn gefnogol iawn i'r Grŵp ac wedi ymroi i'w brif nodau ac amcanion
– Mae uwch reolwyr yn dangos penderfyniad ac uchelgais yn eu hawydd i wella agweddau allweddol ar waith y Grŵp

– Mae'r Corff Llywodraethu'n hynod effeithiol ac yn cynnig ystod eang o sgiliau a gwybodaeth sy'n cael eu defnyddio'n dda i gefnogi'r Prif Weithredwr yn ogystal â'i herio'n gadarn ac effeithiol
– Mae gan y Grŵp bartneriaethau cryf ac effeithiol ag amrediad eang o sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn gwella sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth i ddysgwyr ar draws y rhanbarth

Yn yr arolygiad diweddaraf ar y Dysgu Seiliedig ar Waith, daethpwyd i'r casgliad fod "y cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau cymhwyster llawn arnynt yn dda at ei gilydd. Dengys data nas gwiriwyd bod cyfraddau cyrhaeddiad yn parhau i wella ar draws bron pob maes rhaglen. Mae dysgwyr yn mwynhau eu dysgu ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylcheddau hyfforddi. Mae ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu yn dda ar y cyfan, a cheir ambell enghraifft o arfer ragorol. At ei gilydd, mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn dda a chaiff dysgwyr eu cynorthwyo'n dda i'w helpu i ddatblygu eu haddysg a'u medrau cyflogadwyedd. Gall dysgwyr fanteisio ar ystod eang iawn o raglenni hyfforddi ac adnoddau a chyfleusterau da i ragorol ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Mae uwch reolwyr yn darparu cyfeiriad strategol effeithiol ac yn gosod targedau o ran darparu dysgu seiliedig ar waith".

I ategu'r adroddiadau arolygu a'r setiau data hyn, cafwyd sawl enghraifft o lwyddiannau ymhlith ein staff a'n myfyrwyr:

· Enillodd Ifan Williams, Cai Henshaw a Gwion Jones, sy'n dilyn cyrsiau Adeiladu a Pheirianneg yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, fedalau aur yn Rownd Derfynol Cymru UK Skillbuild, gydag eraill yn ennill medalau arian ac efydd.

· Enwyd Gwilym Iwan Jones, prentis aml-sgil sy'n gweithio i gymdeithas dai fwyaf gogledd Cymru, sef Cartrefi Cymunedol Gwynedd, yn brentis y flwyddyn yn seremoni wobrwyo genedlaethol CIH Cymru.
· Enillodd myfyrwyr o adran Celfyddydau Creadigol Coleg Llandrillo fedal aur mewn cystadleuaeth ddylunio ryngwladol, a gynhaliwyd yn Los Angeles, am eu prosiect graffeg ddigidol diwedd blwyddyn
· Dafydd Davies, myfyriwr yng Nglynllifon, a enillodd deitl Myfyriwr y Flwyddyn yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Fe'i dyfarnwyd hefyd yn Fugail Ifanc y Flwyddyn 2018 yn yr Ovinpiades ym Mharis.
· Enillodd myfyrwyr sy'n astudio Celfyddydau Perfformio yng Ngholeg Menai ddwy wobr yn seremoni wobrwyo 'It's My Shout' a gynhaliwyd yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd. Enwyd Grace Thomas yn "Actores Orau" a Manon Haf Naven yn "Actores Gynorthwyol Orau".

· Yn Seremoni Wobrwyo UCM Cymru, cipiodd Undeb Myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai wobr arbennig, gan ennill y teitl Undeb Myfyrwyr AB y Flwyddyn 2018.
· Llwyddodd dau o fyfyrwyr Coleg Menai, sef Scott Kerr a Matt Low, i ddod i'r brig yn yr adrannau Weldio a Phlastro Waliau Sych yn Rownd Derfynol WorldSkills UK 2017, gan sicrhau eu lle yn Sgwad y Deyrnas Unedig a oedd i gymryd rhan yng nghystadleuaeth World Skills.
· Enwyd Jordan William Jones, sy'n 18 oed, yn Hyfforddai'r Flwyddyn (Ymgysylltu) wedi iddo ddechrau ar yrfa yn y diwydiant cerbydau modur yng ngarej Volvo Ty'n Lon yn Llanfairpwll.
· Yn ogystal, cafodd y Grŵp nifer o lwyddiannau ar y maes chwarae yn ystod y flwyddyn, gyda chwaraewyr yn cystadlu mewn timau cenedlaethol mewn amrywiaeth o gampau

GRŴP LLANDRILLO MENAI
Adroddiad Blynyddol

3.3 Perfformiad Ariannol

Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd strategaeth ariannol y Grŵp. Tra cedwir at yr amcan cyffredinol o "Fod yn sefydliad cynaliadwy sy'n sefydlog yn ariannol", mae'r strategaeth yn diffinio set o amcanion ariannol cliriach y gellir eu mesur drwy Ddangosyddion Perfformiad Allweddol.

Amcan	Taged DPA	Canlyniad 2017/18	Canlyniad 2016/17	Asesiad o'r Cyflwr Ariannol
1. Sicrhau gweddill gweithredol sy'n darparu'r llif arian sy'n angenrheidiol i roi sylfaen gynaliadwy ar gyfer unrhyw anghenion benthyca yn y dyfodol	EBITDA > 4% incwm	4.02%	1.10%	Boddhaol / Annigonol
2. Sicrhau bod y Grŵp yn gweithredu o ddydd i ddydd mewn sefyllfa gref o ddiddyledrwydd	Cymhareb asedau cyfredol net > 2	2.32	2.60	Rhagorol / Rhagorol
3. Sicrhau nad yw lefel y benthyciadau'n rhoi pwysau gormodol ar y Grŵp	Benthyca <15% o'r incwm	1.63%	2.41%	Rhagorol / Rhagorol
4. Cynnal balans ariannol iach	Balans ariannol > £7m	£13.4m	£12.4m	
5. Sicrhau bod costau staff dan reolaeth ac nad yw incwm yn eu gwneud yn anghytbwys	Costau staff (ac eithrio Pensiwn FRS102) < 68.5% o gyfanswm yr incwm	68.45%	67.84%	
6. Bydd y Grŵp yn anelu at gynyddu ei weithgaredd masnachol i leihau dibyniaeth ar gyllid gan Lywodraeth Cymru	Incwm Llywodraeth Cymru < 80% o gyfanswm yr incwm (ac eithrio incwm eithriadol)	79.16%	80.29%	
7. Gwella effeithlonrwydd y ddarpariaeth addysgu	Lleihau 34% ar faint dosbarthiadau < 10	34%	amherthnasol - mae hwn yn Ddangosydd Perfformiad Newydd o 2017/18	
8. Sicrhau bod yr asedau net yn parhau'n gadarnhaol drwy gydol cyfnod y rhagolwg	Sefyllfa gadarn o ran asedau net	£40.4m	£33.3m	

Mae'r tri amcan cyntaf yn cyfrannu at yr asesiad iechyd ariannol a ddiffinnir gan yr Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau. Mae hyn yn rhoi arwydd o gryfder ariannol sylfaenol sefydliadau. Ar sail canlyniadau ariannol 2017/18, mae'r Grŵp wedi'i asesu fel sefydliad sydd mewn cyflwr ariannol 'Da'. Y brif her i'r Grŵp fydd gwella lefel y gwarged y gall ei gynhyrchu. I raddau helaeth mae hyn yn gysylltiedig ag effeithlonrwydd ei ddarpariaeth addysgu, ac yn hyn o beth maint bychan y dosbarthiadau yw'r prif ffactor sy'n cyfyngu ar y Grŵp.

Roedd perfformiad ariannol y Grŵp yn dda yn 2017/18, a llwyddodd i wella c£2m ar ganlyniad EBITDA y flwyddyn flaenorol, fel y dengys y tabl isod. Llwyddodd y Grŵp i gynyddu ei incwm, yn enwedig incwm o brosiectau a ariannwyd gan Ewrop a Llywodraeth Cymru, gan gadw costau dan reolaeth.

	2018 £'000	2017 £'000	Newid £'000
(Diffyg) am y flwyddyn	**(2,796)**	**(2,262)**	**(534)**
Addasiad i'r incwm eithriadol	**(75)**	**(1,169)**	**1,094**
Eitem o wariant eithriadol	**484**	**629**	**(145)**
FRS102 – Costau staffio (pensiwn)	**2,143**	**1,783**	**360**
FRS102 – Costau llogau (pensiwn)	**222**	**783**	**(561)**
Cost dibrisiant ac amhariadau	**4,924**	**4,541**	**383**
Rhyddhau Grantiau Cyfalaf Gohiriedig	**(2,152)**	**(2,924)**	**772**
Llog Derbyniadwy	**(44)**	**(38)**	**(6)**
Llogau taladwy	**58**	**103**	**(45)**
Gwarged yn sgil gwaredu asedau sefydlog	-	**(686)**	**686**
EBITDA	**2,764**	**760**	**2,004**
EBITDA fel % o'r incwm	**4.02%**	**1.10%**	**2.92%**

Mae'r gwariant eithriadol yn ymwneud â chost diswyddiadau gwirfoddol yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn y tabl, dangosir bod gweithrediadau arferol y Grŵp yn parhau i gynhyrchu gwarged a gwneud arian. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd oddeutu £13.3 miliwn o arian parod a buddsoddiadau (2017: £12.4 miliwn) mewn llaw ac roedd £1.12 miliwn yn ddyledus i fanciau (2017: £1.66 miliwn). Mae cadw arian yn bwysig gan fod yn rhaid i'r Grŵp gyfrannu at gostau prosiectau cyfalaf yr ymgymerir â hwy ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Heb wargedion i gynhyrchu arian, ni fyddai'r Grŵp yn gallu buddsoddi yn ei ystâd.

Prif brosiectau cyfalaf y Grŵp yn 2017/18 oedd y datblygiadau ar gampws Llangefni, sef adeilad y Ganolfan Beirianneg, estyniad i'r Ganolfan Technoleg Bwyd a'r gwaith o ddechrau codi Canolfan Hyfforddiant ym maes Sgiliau Adeiladu. Yn ogystal, datblygwyd cyfleuster weldio newydd ar safle'r Rhyl. Deil y Grŵp i fuddsoddi yn ei offer TGCh a'r ystâd yn gyffredinol.

4. Partneriaethau a Rhwydweithiau

Rydym wedi hen sefydlu perthynas ag Awdurdodau Addysg Lleol siroedd Conwy, Dinbych, Môn a Gwynedd. Mae'r Grŵp yn parhau i fod yn bartner gweithgar yn y pedair sir a darpara gyrsiau galwedigaethol 14–16 ac ôl-16 i bob un ohonynt.

Yng nghyswllt Addysg Uwch, mae'r Grŵp yn rhan o grŵp cynllunio rhanbarthol Gogledd a Chanolbarth Cymru ac mae wedi ffurfio partneriaeth strategol â Phrifysgol Bangor. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ac UCLAN. Mae'r Ganolfan Brifysgol yng Ngholeg Llandrillo, mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, yn bwynt gwerthu o'r radd flaenaf o safbwynt ein darpariaeth Addysg Uwch, a deil y Grŵp i ychwanegu at ei ddarpariaeth Addysg Uwch drwy gyfrwng datblygiadau newydd fel Prentisiaethau Uwch a Gradd-brentisiaethau.

Caiff y cysylltiadau hyn â'r Prifysgolion sy'n bartneriaid i ni effaith gadarnhaol o ran ymateb a bod yn berthnasol i anghenion economi Gogledd Cymru, drwy alluogi myfyrwyr yng Ngogledd Cymru i gael addysg uwch yn nes at adref a/neu at eu gwaith.

Yn ogystal, mae'r Grŵp yn aelod gweithgar o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Bwrdd Ymgynghorol Rhaglen yr Ynys Ynni a'r ddau Fwrdd Gwasanaethau Lleol yng Ngogledd Cymru sy'n cynorthwyo i wireddu cenhadaeth y Grŵp o ran ymgysylltu â chyflogwyr.

GRŴP LLANDRILLO MENAI
Adroddiad Blynyddol

5. Datblygiadau i'r Dyfodol

Mae posibilrwydd o hyd y gall sefyllfa'r Grŵp parthed ariannu newid. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu adolygu methodoleg gyllido Addysg Uwch o 2019/20 ymlaen ac ni wyddom beth fydd effaith unrhyw benderfyniad a wneir mewn perthynas â Brexit. Mae'r Grŵp yn parhau i chwilio am ffyrdd eraill o sicrhau cyllid, gan gynyddu ei ddarpariaeth fasnachol a gwireddu cyfleoedd a gynigir yn sgil datblygiadau'r Ynys Ynni. O ran Addysg Uwch, mae posibilrwydd y gellir cynyddu'r ddarpariaeth ran-amser, sydd wedi'i chapio ar hyn o bryd, os gweithredir argymhellion Adroddiad Diamond. Mae gan y Grŵp gontract dysgu seiliedig ar waith, gyda Grŵp Llandrillo Menai'n arwain a Hyfforddiant Arfon Dwyfor a Hyfforddiant Gogledd Cymru'n bartneriaid. Yn y maes hwn, gwelwyd twf yn yr incwm yn 2017/18 a'r gobaith yw y gellir datblygu hyn ymhellach yn y dyfodol.

Yn ystod haf 2018, rhoddodd y Grŵp raglen diswyddo gwirfoddol ar waith am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Mae toriadau gwirioneddol mewn cyllid yn y blynyddoedd sydd i ddod yn debygol o gael effaith ar lefel a natur y ddarpariaeth y gall y Grŵp ei chynnig ac mae'r Grŵp yn parhau i reoli costau'n gadarn.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r Grŵp yn parhau'n ariannol gadarn, gan sicrhau gwargedion EBITDA ar weithgareddau cyffredin ynghyd â mantolen a sefyllfa ariannol iach.

Canolbwynt prif wariant cyfalaf y Grŵp yn y tymor byr a'r tymor canol fydd y datblygiadau sy'n gysylltiedig â phrosiect yr Ynys Ynni ar gampws Llangefni ac yn y cyffiniau. Cwblheir y Ganolfan Beirianneg a'r estyniad i'r Ganolfan Technoleg Bwyd ddiwedd 2018, a gobeithir cwblhau'r Ganolfan Hyfforddiant ym maes Sgiliau Adeiladu yn 2019.

6. Y Risgiau a'r Ansicrwydd Pennaf

Er mwyn gwarchod ei enw da a'i asedau, mae'r Grŵp yn gweithredu system gadarn o ran rheoli risgiau ledled y sefydliad. Ceidw'r Grŵp gofrestr risgiau a adolygir yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Yn y gofrestr risgiau, nodir y risgiau allweddol, pa mor debygol yw y bydd y risgiau hynny'n digwydd, eu heffaith posibl a'r camau a gymerwyd/a gymerir i leihau'r risgiau hynny. Defnyddir system sgorio gyson i flaenoriaethu risgiau.

Mae'r rhagolygon economaidd presennol yn parhau'n ansicr. Ar ben hynny, ni wyddwn beth fydd effeithiau penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd. Gall hyn effeithio ar gyllid y Grŵp yn y dyfodol, naill ai yn sgil lleihad yn y nifer o fyfyrwyr neu yn sgil gofynion effeithlonrwydd mewn perthynas â'n cyllid. Mae'n bosibl y caiff y ddarpariaeth Addysg Bellach ran-amser lai o gefnogaeth yn y dyfodol ac y bydd hyn yn effeithio ar y gofynion o ran staff a'r ystâd.

7. Polisïau ac Amcanion y Trysorlys

Ystyr rheoli'r trysorlys yw rheoli llif arian y Grŵp ynghyd â'i gyfrifon banc a'i drafodion ar y farchnad arian a'r farchnad gyfalaf; rheoli'n effeithiol y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn; a sicrhau'r perfformiad gorau posibl yn gyson â'r risgiau hynny.

I reoli'r trysorlys, mae gan y Grŵp bolisi neilltuol sy'n pennu mai dim ond gyda banciau uchel eu parch yn y Deyrnas Unedig y gall y Grŵp adneuo ei arian.

Yn unol â'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd fis Mawrth 2016, gall y Corff Llywodraethu gymeradwyo unrhyw fenthyciad a gymer y sefydliad, gan ystyried iechyd ariannol y Grŵp ar y pryd ac yn y dyfodol.

8. Trefniadau o ran Tryloywder

Mae'r gorfforaeth yn cynnal ei busnes drwy gyfrwng nifer o bwyllgorau, fel yr eglurir ar dudalen 7. Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr. Gellir cael cofnodion cyfarfodydd gan:

Y Swyddog Llywodraethu
GRŴP LLANDRILLO MENAI
Ffordd Llandudno
Llandrillo-yn-Rhos
Conwy
LL28 4HZ

9. Perfformiad o ran Talu

Mae'r Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, a ddaeth i rym 1 Tachwedd 1998, yn ei gwneud yn ofynnol i golegau, os nad oes cytundeb i'r gwrthwyneb, dalu eu cyflenwyr o fewn 30 diwrnod i naill ai dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu i dderbyn yr anfoneb.

Yn unol â dymuniadau'r Bwrdd, sicrha'r Grŵp fod telerau talu ffafriol yn cael eu trafod ar gyfer cyflenwyr lleol a chostau teithio myfyrwyr, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Telir o fewn 16 diwrnod (2017: 19 diwrnod). Ni thalodd y Grŵp logau yn sgil talu'n hwyr yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2018.

10. Digwyddiadau ers y Fantolen Ddiwethaf

Ar y 26 Hydref 2018, daeth y Llys Apêl i benderfyniad ynghylch mater, a fu dan sylw ers tro, a oedd yn ymwneud ag Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP). Mae hwn yn un mewn cyfres o fuddion pensiwn penodol a gaiff gweithiwr am wasanaeth 'a eithriwyd' cyn 6 Ebrill 1997, ac a fwriadwyd i gymryd lle cyfran a aberthwyd o'r pensiwn gwladol. Fis Gorffennaf 2018, aeth Lloyds Banking Group i gyfraith, ynghyd ag ymddiriedolwyr ei gynlluniau pensiwn ac undebau llafur, er mwyn cael eglurhad a oedd rhaid i gynlluniau pensiwn dalu'r un faint o fuddion GMP i ddynion a merched. Dyfarnodd yr Uchel Lys fod yn rhaid i gynllun pensiwn Banc Lloyds dalu'r un faint o fuddion pensiwn GMP i ddynion a merched, gan gynyddu atebolrwydd y cynllun. Mae'r Coleg, ar y cyd â'i gynghorwyr actiwaraidd, yn edrych ar oblygiadau'r dyfarniad o ran y diffyg sy'n gysylltiedig â'r cynllun llywodraeth leol a'i gyfran berthnasol o'r diffyg hwnnw. Adlewyrchir yn y datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2019 unrhyw effaith a gaiff hyn ar y cyfrifyddu.

GRŴP LLANDRILLO MENAI
Adroddiad Blynyddol

11. Budd y Cyhoedd

Mae'r Grŵp yn elusen a eithriwyd o dan Ran 3 Deddf Elusennau 2011 ac fe'i rheolir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg. Ar dudalen 7, rhestrir aelodau'r Corff Llywodraethu, sy'n ymddiriedolwyr yr elusen. Wrth bennu ac adolygu amcanion strategol y Coleg, rhoddodd y Coleg sylw dyledus i arweiniad y Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd, yn enwedig yr arweiniad ategol ar hyrwyddo addysg.

Wrth wireddu ei genhadaeth, darpara'r Coleg fuddion amlwg i'r cyhoedd drwy hyrwyddo addysg i 21,894 o fyfyrwyr, yn cynnwys 1,300 myfyriwr sydd ag anghenion mawr. Darpara'r coleg gyrsiau am ddim i bobl ifanc, i bobl ddi-waith ac i oedolion sy'n dilyn cyrsiau Saesneg a Mathemateg. Addasa'r coleg ei gyrsiau i fodloni gofynion cyflogwyr lleol a darpara hyfforddiant i brentisiaid. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr sy'n cofrestru ar ei gyrsiau ac i ganfod cyrsiau addas i gynifer o fyfyrwyr â phosibl, beth bynnag fo eu cefndir addysgol.

12. Cyfle Cyfartal a Chyflogi Pobl Anabl

Mae'r Grŵp yn cydnabod gwerth pob aelod o'i gymuned. Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i gynnig gwasanaeth addysgol sy'n rhoi cyfle cyfartal ac a fwriadwyd i fynd i'r afael â gwahaniaethu. Ceisia hyrwyddo cydraddoldeb o ran mynediad, cynhwysiad cymdeithasol, hybu ehangu cyfranogiad a sicrhau cydraddoldeb mewn cyd-destun dwyieithog. Mae'r Grŵp wedi mynd ati i ddatblygu set gynhwysfawr o bolisïau i hybu cydraddoldeb, a thrwy ennill Marc Siartr a Statws Buddsoddwyr mewn Pobl, fe'i cydnabuwyd yn allanol yn gyflogwr sy'n cynnig cyfle cyfartal. Lluniodd y Grŵp ddatganiad ynghylch anabledd, ac mae gan y Grŵp hawl i ddefnyddio'r symbol "Yn gadarn o blaid pobl anabl" yn ei hysbysebion am swyddi, ar ei ffurflenni cais ac yn ei lenyddiaeth recriwtio. Mae'r Grŵp yn meddu ar y symbol "Dwy Dic" – yn gadarn o blaid pobl anabl. Mae'r Grŵp hefyd wedi llunio "Cynllun Iaith Gymraeg" ac mae'n hyrwyddo'r cynllun hwn mewn modd gweithredol.

13. Trethiant

Nid oes raid i'r Grŵp dalu treth gorfforaethol ar ei weithgareddau, ond mae gofyn iddo dalu TAW. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y polisi cyfrifyddu mewn perthynas â threthiant ar dudalen 21.

14. Datganiad ynghylch Anabledd

Ceisia'r Grŵp gyflawni'r amcanion a nodir yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 a 2005.

15. Cynnwys Staff a Myfyrwyr

Ystyria'r Grŵp fod cyfathrebu da'n hanfodol er mwyn rheoli'r colegau. Caiff staff a myfyrwyr eu cynnwys yn llawn ym mhrif bwyllgorau'r Grŵp, ac fe'u cynrychiolir ar Fwrdd y Gorfforaeth. Rhoddir cryn gyhoeddusrwydd i'r Drefn Gwyno a'r Drefn Datrys Anghydfod, ac mae gan y Grŵp 'Siartr Myfyrwyr' a 'Pholisi Chwythu'r Chwiban' sydd wedi ennill eu plwyf.

Caiff y myfyrwyr eu cynnwys yn y broses sicrhau ansawdd ac maent yn rhan o'r timau adolygu cyrsiau. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda staff sy'n ymwneud â rheolaeth gorfforaethol. Cafodd effeithiolrwydd cyffredinol y sefydliad ei gydnabod yn eglur yn yr asesiadau allanol a gynhaliwyd mewn perthynas ag ansawdd.

Parhaodd y Grŵp i ddatblygu TGCh er mwyn gwella'r cyfathrebu a'r dulliau rheoli data ledled y Grŵp, gan eu gwneud hefyd yn rhan annatod o'r addysgu a'r dysgu a gynigia. Yn ogystal, ymatebodd yn gadarnhaol i adborth gan fyfyrwyr, yn enwedig o ran cyflwyno cyfleusterau WiFi gwell yn raddol ledled y Grŵp.

Cynghorwyr Proffesiynol

Archwilwyr Annibynnol:

PricewaterhouseCoopers LLP
One Kingsway
Caerdydd
CF10 3PW

Archwilwyr Mewnol:

RSM
Festival way
Festival Park
Stoke on Trent
ST1 5BB

Prif Fancwyr:

Barclays Bank plc.
Corporate Banking Centre
P O Box 3333,
One Snowhill
Snow Hill Queensway,
Birmingham,
B3 2WN

Cyfreithwyr:

Eversheds
1 Sgwâr Callaghan
Caerdydd
CF10 5BT

J W Hughes & Co
27 Stryd Augusta
Llandudno
Conwy
LL30 2AD

Adroddiad Blynyddol

16. Aelodau'r Bwrdd

Ad-drefnwyd Bwrdd y Grŵp yn llwyr fis Ebrill 2012 yn dilyn yr uno, gan ffurfio un Bwrdd o'r ddau Fwrdd blaenorol. Cyflwynwyd strwythur pwyllgorau newydd, gan gynnwys Cynghorau Colegol lleol i ehangu perchenogaeth gweithgareddau'r Grŵp. Sefydlwyd Pwyllgor Cadeiryddion gweithredol i hyrwyddo'r egwyddorion sy'n gysylltiedig â bod yn agored ac yn atebol. Cedwir Cofrestr o Fuddiannau holl aelodau'r Bwrdd.

17. Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr Annibynnol

Cadarnha'r aelodau a oedd yn dal swyddi ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn nad oes, hyd y gwyddant, unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad nad yw archwilwyr y Grŵp yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd i ganfod unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad ac i ofalu bod archwilwyr y Grŵp yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Aelodau

CYFENW:	ENW CYNTAF	UCHAFSWM TYMOR:	STATWS Y PENODIAD:	DYDDIAD PENODI / YMDDISWYDDO YN YSTOD Y FLWYDDYN:	Y PWYLLGORAU YR OEDDYNT YN AELODAU OHONYNT
Bellis	John	4 blynedd x 2		04.12	PCA, PCMS
Bichan (C)	Roy	4 blynedd x 2		04.12	PCA, PC
Billcliff	Andy	4 blynedd x 2		07.14	PAR
Evans	Dafydd	Ex officio	Prif Weithredwr	09.16	PCA, PCMS, PC
Evans	Dilwyn	4 blynedd x 2		04.12	PCA, PC
Halpin	Helen	4 blynedd x 2		04.12	PCMS, PC
Hilliard	Anna	1 flwyddyn	Swyddog AU	01.18-07.18	PCMS
Joannou	Lynne	4 blynedd x 2		04.17	PCMS
Jones (IG)	Griff	4 blynedd x 2		04.12	PCA, PC
Lavin	Peter	4 blynedd x 2		04.12	PAR
McCoy	Justin	4 blynedd x 2	Staff Addysgu	04.12	PCMS
Pugh	Hedd	4 blynedd x 2		04.12	PCA
Pierce- Williams	John	4 blynedd x 2		04.12	PCA
Pryor	Marian	4 blynedd x 2		04.17	PAR
Thomas	Alun	4 blynedd x 2		04.12	PCA
Williams MBE	David	4 blynedd x 2		04.12	PAR, PC
Woosnam	Brian	4 blynedd x 2	Aelod staff nad yw'n addysgu	09.17	LCC
Whittey	Robert	1 flwyddyn	Llywydd Undeb y Myfyrwyr	09.17-07.18	PCMS

Allwedd:

PAR	Y Pwyllgor Archwilio a Risgiau	C	Cadeirydd
PCA	Y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau	IG	Is-gadeirydd
PCMS	Y Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau		
PC	Pwyllgor y Cadeiryddion		

Cymeradwywyd gan aelodau'r Gorfforaeth ar **a llofnodwyd ar eu rhan gan:**

R Bichan

Cadeirydd

GRŴP LLANDRILLO MENAI

DATGANIAD YNGHYLCH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLI MEWNOL

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i arddangos yr arferion gorau ym mhob agwedd ar ei lywodraethu corfforaethol. Ei ddiben yw cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y datganiadau ariannol i ddeall sut y rhoddwyd yr egwyddorion ar waith.

Ym marn y Llywodraethwyr, cydymffurfia'r Grŵp â holl ddarpariaethau priodol y Cod o ran Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru (2016) lle maent yn berthnasol i'r Sector Addysg Bellach, gan gydymffurfio drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2018 hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

Bwrdd y Gorfforaeth

Mae Bwrdd Corfforaeth y Grŵp yn cynnwys aelodau annibynnol yn ogystal chynrychiolwyr o blith y staff a'r myfyrwyr, a Phrif Weithredwr y Grŵp. Mae cyfansoddiad Bwrdd y Gorfforaeth i'w weld ar dudalen 7. Cyfrifoldeb Bwrdd y Gorfforaeth yw cynnig barn annibynnol ar faterion sy'n ymwneud â strategaeth, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad. Mae elfen anweithredol gref ac annibynnol i Fwrdd y Gorfforaeth, ac nid oes unrhyw unigolyn na grŵp yn rheoli'r broses gwneud penderfyniadau. Ystyria Bwrdd y Gorfforaeth fod pob un o'i aelodau anweithredol yn annibynnol ar y rheolwyr ac nad oes ganddynt fusnes na pherthynas arall a allai amharu'n sylweddol ar y modd y maent yn defnyddio eu barn annibynnol.

Gall pob llywodraethwr gymryd cyngor proffesiynol annibynnol ar gost y Grŵp er mwyn hyrwyddo eu dyletswyddau ac mae ganddynt hawl i gysylltu â Chlerc Bwrdd y Gorfforaeth, sy'n gyfrifol i Fwrdd y Gorfforaeth am sicrhau y cydymffurfir â'r holl drefnau a rheoliadau perthnasol. Mae penodi, ail werthuso, a diswyddo'r Clerc oll yn faterion i Fwrdd y Gorfforaeth yn ei gyfanrwydd.

Gan fod rolau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn wahanol, mae rhaniad clir yn y cyfrifoldebau.

Bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn cyfarfod yn ffurfiol bedair gwaith y flwyddyn (a chynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Digwyddiad Cynllunio Strategol yn ogystal) ac mae wedi sefydlu pedwar is-bwyllgor ffurfiol, sef y Pwyllgor Archwilio a Risgiau, y Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau, y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a Phwyllgor y Cadeiryddion. Mae gan bob is-bwyllgor gylch gorchwyl ffurfiol ac adroddant i Fwrdd y Gorfforaeth.

Dosberthir agendâu, papurau ac adroddiadau i'r llywodraethwyr mewn da bryd cyn cyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth. Darperir gwybodaeth ar sail ad-hoc.

Caiff Bwrdd y Gorfforaeth wybodaeth reolaidd ac amserol am berfformiad ariannol cyffredinol y Grŵp, ynghyd â gwybodaeth arall am bethau fel perfformiad yn erbyn targedau ariannu, gwariant cyfalaf arfaethedig, materion yn ymwneud ag ansawdd, a materion sy'n gysylltiedig â phersonél, iechyd a diogelwch a'r amgylchedd.

Yn ogystal â'r is-bwyllgorau a nodir uchod, mae 7 Cyngor Colegol Lleol yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd y Gorfforaeth.

Penodi Aelodau ar Fwrdd y Gorfforaeth

Mae unrhyw benodiadau newydd i'r Gorfforaeth yn fater i'w ystyried gan y Gorfforaeth yn ei chyfanrwydd. Bydd Pwyllgor y Cadeiryddion yn cynghori Bwrdd y Gorfforaeth ynghylch recriwtio aelodau newydd, yn ystyried cyfansoddiad a chydbwysedd Bwrdd y Gorfforaeth, ac yn datblygu trefnau ar gyfer hyfforddi, sefydlu a datblygu aelodau Bwrdd y Gorfforaeth.

Yn arferol, penodir aelodau'r Gorfforaeth am gyfnod o bedair blynedd (gellir eu hailethol).

Y Pwyllgor Archwilio a Risgiau

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau bedair gwaith yn y flwyddyn 2017/18. Gweithreda'r pwyllgor yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig a gymeradwywyd gan Fwrdd y Gorfforaeth. Mae'n cynnwys pedwar aelod ac un aelod cyfetholedig (ac eithrio Prif Weithredwr y Grŵp a Chadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth). Gwahoddir archwilwyr allanol a mewnol y Grŵp i gyflwyno adroddiadau ac i fynychu'r cyfarfodydd, ac mae ganddynt hawl i gysylltu â'r Pwyllgor i drafod yn annibynnol, heb i reolwyr y Grŵp fod yn bresennol.

Er bod uwch reolwyr yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risgiau yn ôl y galw, nid ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risgiau hefyd yn cynghori Bwrdd y Gorfforaeth ynghylch penodi archwilwyr mewnol ac allanol ac ynghylch talu iddynt am waith archwilio a gwaith nad yw'n ymwneud ag archwilio.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried ac yn cytuno ar raglen flynyddol yr archwilwyr mewnol sy'n darparu asesiadau annibynnol ar bob agwedd ar systemau'r Grŵp o ran rheoli mewnol, rheoli risgiau, rheolyddion a phrosesau llywodraethu. Bydd yr archwilwyr yn cyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau i'r rheolwyr ac i'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau. Y rheolwyr sy'n gyfrifol am weithredu argymhellion archwilio cytunedig ac yn rheolaidd, bydd archwilwyr mewnol yn cynnal adolygiadau dilynol i sicrhau bod argymhellion o'r fath wedi cael eu rhoi mewn grym.

O dro i dro, bydd y Pwyllgor yn gofyn i'r rheolwyr gyflwyno adroddiadau hunan-archwilio ar agweddau ar system rheoli mewnol y Grŵp. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiadau perthnasol gan AdAS, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a chyrff eraill pan fyddant yn effeithio ar fusnes y Grŵp. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau'n monitro cynnydd y rheolwyr o ran gweithredu argymhellion yr archwilwyr.

Pwyllgor y Cadeiryddion

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2018, cyfarfu Pwyllgor y Cadeiryddion i wneud argymhellion i Fwrdd y Gorfforaeth ynghylch taliadau i ddeiliaid swyddi uwch. Sefydlwyd proses ffurfiol o osod amcanion ar gyfer monitro perfformiad deiliaid swyddi uwch. Mae arolygon annibynnol ynghylch lefelau taliadau cenedlaethol i ddeiliaid swyddi uwch hefyd yn sail i argymhellion y Pwyllgor. Mae manylion y taliadau am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2018 i'w gweld yn nodyn 7 yn y datganiadau ariannol.

GRŴP LLANDRILLO MENAI
DATGANIAD YNGHYLCH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLI MEWNOL
Rheoli Mewnol

Cynllunio strategol a rheoli ariannol

Mae'r Grŵp wedi sefydlu proses gynllunio strategol gadarn. Sicrha'r broses hon fod Bwrdd y Gorfforaeth, y Tîm Strategol / yr Uwch Dîm Rheoli a'r Tîm Rheoli'n cael eu cynnwys, ac yr ymgynghorir â'r holl staff, wrth ddatblygu'r cynllun strategol. Bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn cymeradwyo'r cynllun strategol terfynol ac yn monitro'r cynnydd o ran cyflawni'r amcanion strategol yn ystod y flwyddyn.

Llunnir cyllideb a rhagolygon ariannol y Grŵp ar y cyd â'r cynllun strategol. Bydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau'n argymell i Fwrdd y Gorfforaeth gyllidebau refeniw a chyfalaf blynyddol y Grŵp a bydd yn monitro'r perfformiad mewn perthynas â'r cyllidebau a gymeradwywyd. Darperir cyfrifon rheoli misol manwl i ddeiliaid cyllidebau a chaiff y rhain eu hadolygu gan uwch reolwyr. Mae'r Grŵp wedi sefydlu rheoliadau ariannol manwl a lefelau awdurdod dirprwyedig sy'n darparu fframwaith i reoli arian o fewn y Grŵp.

Hyd a lled y cyfrifoldeb

Yn y pen draw, Bwrdd y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am system rheoli mewnol y Grŵp ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Fodd bynnag, cynlluniwyd system o'r fath i reoli yn hytrach nag i ddileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion y busnes, a sicrwydd rhesymol yn unig, yn hytrach na sicrwydd absoliwt, all system o'r fath ei ddarparu rhag camddatganiad neu golled faterol berthnasol.

Mae Bwrdd y Gorfforaeth wedi dirprwyo i Brif Weithredwr y Grŵp, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, y cyfrifoldeb o gadw system rheoli mewnol gadarn sy'n gymorth i'r Grŵp gyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion, gan ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau y mae ef yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd iddo yn y Memorandwm Ariannol rhwng Grŵp Llandrillo Menai a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am roi gwybod i Fwrdd y Gorfforaeth am unrhyw wendidau neu ddiffygion materol berthnasol yn y drefn rheoli mewnol.

Diben y system rheoli mewnol

Cynlluniwyd y system rheoli mewnol i reoli risgiau hyd at lefel resymol yn hytrach nag i ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly, ni all ond darparu sicrwydd o effeithiolrwydd rhesymol, nid effeithiolrwydd absoliwt. Mae'r system rheoli mewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Grŵp, i bwyso a mesur pa mor debygol yw'r risgiau o gael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Bu'r system rheoli mewnol ar waith yng Ngrŵp Llandrillo Menai drwy'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2018 a hyd dyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

Y gallu i ymdrin â risgiau

Mae Bwrdd y Gorfforaeth wedi adolygu'r prif risgiau sy'n wynebu'r Grŵp, ynghyd â'r rheolyddion gweithredu, y rheolyddion ariannol a'r rheolyddion cydymffurfio a roddwyd ar waith i leihau'r risgiau hynny. Mae Bwrdd y Gorfforaeth o'r farn fod proses barhaus, ffurfiol o nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y Sefydliad wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2018 a hyd ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol. Adolyga Bwrdd y Gorfforaeth y broses hon yn rheolaidd.

Y fframwaith risgiau a rheoli

Mae'r system rheoli mewnol wedi'i seilio ar fframwaith sy'n darparu gwybodaeth reolaidd ynghylch rheoli, trefnau gweinyddol, yn cynnwys neilltuo dyletswyddau, a system mewn perthynas â dirprwyo ac atebolrwydd. Yn benodol, mae'n cynnwys:

· Systemau cyllidebu cynhwysfawr, ynghyd â chyllideb flynyddol, a adolygir ac a gytunir gan Fwrdd y Gorfforaeth;

· Adolygiadau rheolaidd gan Fwrdd y Gorfforaeth o adroddiadau cyfnodol a blynyddol, sy'n dangos y perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon;

· Gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiadau eraill;

· Canllawiau rheoli buddsoddiadau cyfalaf wedi'u diffinio'n glir; a

· Mabwysiadu disgyblaethau ffurfiol i reoli prosiectau, fel y bo'n briodol.

Mae gan Grŵp Llandrillo Menai wasanaeth archwilio mewnol, sy'n gweithredu yn unol â gofynion AdAS. Mae gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol wedi'i seilio ar ddadansoddiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Grŵp, a seilir y cynlluniau archwilio mewnol blynyddol ar y dadansoddiad hwnnw. Cadarnheir y dadansoddiad o'r risgiau a'r cynlluniau archwilio mewnol gan Fwrdd y Gorfforaeth ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a Risgiau. Yn flynyddol, bydd yr archwilwyr mewnol yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd y Gorfforaeth ar weithgaredd archwilio mewnol y sefydliad. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr archwiliwr mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli risgiau, rheolyddion a phrosesau'r Grŵp.

GRŴP LLANDRILLO MENAI

DATGANIAD YNGHYLCH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A RHEOLI MEWNOL

Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae Prif Weithredwr y Grŵp yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Seilir ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol ar:

· waith yr archwilwyr mewnol;

· gwaith uwch reolwyr y Grŵp sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol;

· sylwadau a wnaed gan archwilwyr datganiadau ariannol y Grŵp ac archwilwyr Llywodraeth Cymru yn eu llythyrau rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Cafodd Prif Weithredwr y Grŵp wybod gan y Pwyllgor Archwilio a Risgiau, sy'n goruchwylio gwaith yr archwilwyr mewnol, beth yw goblygiadau canlyniad ei adolygiad ar effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Mae prosesau ansawdd y Grŵp yn cynnwys cynllun i fynd i'r afael â gwendidau ac i sicrhau bod trefn ar waith i wella'r system yn barhaus.

Derbynia'r Tîm Strategol/yr Uwch Dîm Rheoli adroddiadau sy'n nodi'r dangosyddion o ran perfformiad allweddol a risgiau ac ystyria'r materion rheoli posibl a dynnwyd i'w sylw gan y peirianwaith rhybudd cynnar sydd wedi'i ymgorffori yn yr adrannau ac sy'n cael ei atgyfnerthu drwy hyfforddiant codi ymwybyddiaeth a system gofnodi 4Risk y Grŵp. Mae'r Tîm Strategol/yr Uwch Dîm Rheoli hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd, sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwelliannau, gan yr archwilwyr mewnol. Yn y maes hwn, cyfyngir rôl y Pwyllgor Archwilio a Risgiau i adolygiadau lefel uchel o'r trefniadau rheoli mewnol. Mae ystyried risgiau a'r drefn reoli'n eitem reolaidd ar agenda'r Gorfforaeth, a derbynia'r Gorfforaeth adroddiadau ar y rhain gan y Pwyllgor Archwilio a Risgiau. Mae'r pwyslais ar gael y radd berthnasol o sicrwydd ac nid ar adrodd ar eithriadau yn unig. Yn ei gyfarfod a gynhelir fis Tachwedd 2018, bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn cynnal asesiad o'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2018 drwy ystyried dogfennau gan y Pwyllgor Archwilio a Risgiau a'r archwiliad mewnol, gan ystyried yr hyn a ddigwyddodd ers 31 Gorffennaf 2018.

Busnes hyfyw

Wedi gwneud ymholiadau priodol, ystyria'r Gorfforaeth fod gan y Grŵp adnoddau digonol i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld. Oherwydd hyn, parheir i baratoi'r datganiadau ariannol ar y sail bod y busnes yn hyfyw.

Cymeradwywyd gan aelodau'r Gorfforaeth ar **a llofnodwyd ar eu rhan gan:**

Mr R Bichan

Cadeirydd

Mr D Evans

Prif Weithredwr y Grŵp

GRŴP LLANDRILLO MENAI

DATGANIAD YNGHYLCH CYSONDEB, PRIODOLDEB A CHYDYMFFURFIAETH

Yn unol â'r memorandwm ariannol a'r contractau a gytunwyd rhwng y Coleg a Llywodraeth Cymru, mae'r Corff Llywodraethu wedi ystyried ei gyfrifoldeb dros hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw anghysondebau, amhriodoldeb a diffyg cydymffurfio sy'n faterol berthnasol o ran y telerau a'r amodau cyllido. Wrth ystyried, rhoesom sylw dyladwy i ofynion y memorandwm ariannol a'r contractau a gytunwyd â Llywodraeth Cymru.

Ar ran y Corff Llywodraethu, cadarnhawn y gallwn, drwy archwilio'n briodol, a hyd eithaf ein gwybodaeth, ganfod anghysondeb materol berthnasol neu ddefnydd amhriodol o gyllid ar ran y Coleg, neu ddiffyg cydymffurfio materol berthnasol â'r memorandwm ariannol a'r contractau a gytunwyd rhwng y Coleg a Llywodraeth Cymru.

Cadarnhawn na chanfuwyd hyd yma unrhyw anghysondebau, amhriodoldeb na diffyg cydymffurfio cyllidol sy'n faterol berthnasol. Os gwelir achosion ar ôl dyddiad y datganiad hwn, rhoddir gwybod amdanynt i Lywodraeth Cymru.

Mr R Bichan

Cadeirydd

Mr D Evans

Prif Weithredwr y Grŵp

GRŴP LLANDRILLO MENAI

DATGANIAD YNGHYLCH CYFRIFOLDEBAU AELODAU'R GORFFORAETH

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae gofyn i aelodau'r Gorfforaeth (Bwrdd y Llywodraethwyr) gyflwyno adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol a archwiliwyd.

Yn unol â thelerau ac amodau'r memorandwm ariannol a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cymru, yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) a'r Gorfforaeth, mae gofyn i Fwrdd y Llywodraethwyr, drwy Brif Weithredwr y Grŵp, baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â'r Datganiad ynghylch Arferion a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch, y Cyfarwyddiadau Cyfrifyddu i Sefydliadau Addysg Bellach ar gyfer 2017–18, gan roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a chanlyniadau'r flwyddyn honno.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i Fwrdd y Llywodraethwyr:

· ddethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith mewn modd cyson;

· gwneud dyfarniadau a llunio amcangyfrifon rhesymol a gochelgar;

· datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig, yn unol ag unrhyw wyriadau materol berthnasol a ddatgelwyd ac a eglurwyd yn y datganiadau ariannol; a

· pharatoi datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai ei bod yn amhriodol cymryd y bydd y Coleg yn parhau i weithredu.

Hefyd, mae gofyn i'r Gorfforaeth baratoi Adroddiad Aelodau sy'n disgrifio'r hyn a geisia ei wneud a sut y bwriada wneud hynny, yn cynnwys statws cyfreithiol a gweinyddol y Grŵp.

Mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n dangos, yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Grŵp ac sy'n ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n unol â'r deddfau corffori perthnasol a safonau cyfrifyddu eraill perthnasol. Mae'n gyfrifol am gymryd camau sy'n rhesymol agored iddo er mwyn diogelu asedau'r Grŵp ac atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Cyfrifoldeb Corfforaeth y Grŵp yw cynnal gwefan y Grŵp a chywirdeb y wefan honno; nid yw'r gwaith a wna'r archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly, nid yw'r archwilwyr yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd mewn perthynas â'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno gyntaf ar y wefan. Gall y deddfau sy'n rheoli cyflwyno a dosbarthu datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig wahaniaethu i'r deddfau mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am sicrhau bod gwariant ac incwm yn cael eu defnyddio'n unol â'r hyn y'u bwriadwyd gan Lywodraeth Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Maent yn gyfrifol hefyd am sicrhau nad yw cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ond yn cael ei ddefnyddio'n unol â'r Memorandwm Ariannol a gytunwyd â Llywodraeth Cymru ac yn unol ag unrhyw amodau eraill y gellir eu pennu o dro i dro. Rhaid i'r aelodau sicrhau bod rheolyddion ariannol a rheolaethol digonol ar waith i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd eraill ac i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol. Yn ychwanegol, mae Aelodau'r Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau a gwariant y Coleg yn cael eu rheoli'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol, fel nad yw'r manteision a ddylai ddeillio o ddefnyddio cyllid cyhoeddus a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru'n cael eu peryglu.

Cymeradwywyd gan aelodau'r Gorfforaeth ar **a llofnodwyd ar eu rhan gan:**

Dr R Bichan

Cadeirydd Dyddiad:

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GORFFORAETH GRŴP LLANDRILLO MENAI (Y "SEFYDLIAD")

Adroddiad ar y modd yr archwiliwyd y datganiadau ariannol

Ein barn

Yn ein barn ni, mae datganiadau ariannol Grŵp Llandrillo Menai a datganiadau ariannol y rhiant-sefydliad (y "datganiadau ariannol"):

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant-sefydliad ar 31 Gorffennaf 2018, ac o incwm a gwariant a llif arian y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon", a'r gyfraith berthnasol;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion y Datganiad ynghylch Arferion a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cyfarwyddiadau Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol, a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol (yr "Adroddiad Blynyddol"), sy'n cynnwys Mantolenni Cyfunol a Cholegol ar 31 Gorffennaf 2018; y Datganiadau Cyfunol a Cholegol ynghylch Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; y Datganiadau Cyfunol a Cholegol ynghylch Newidiadau i Gronfeydd am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; y Datganiadau Cyfunol ynghylch Llif Arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r nodiadau i gyd-fynd â'r datganiadau ariannol, sy'n cynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol a gwybodaeth esboniadol arall.

Sail ein barn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol mewn perthynas ag Archwilio (y DU) ("ISAs (y DU)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir rhagor ar ein cyfrifoldebau yn unol ag ISAs (y DU) yn yr adran yn ein hadroddiad sy'n sôn am gyfrifoldebau'r Archwilwyr o ran archwilio'r datganiadau ariannol. Credwn fod y dystiolaeth a welsom wrth archwilio'n ddigonol ac yn briodol er mwyn darparu sail i'n barn.

Annibyniaeth

Gwnaethom barhau'n annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Casgliadau mewn perthynas â busnes hyfyw

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ar y materion a ganlyn y mae ISAs (y DU) yn gofyn i ni roi gwybod i chi amdanynt:

- pan fydd defnydd y Gorfforaeth o gyfrifyddu ar sail busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn amhriodol; neu
- pan nad yw'r Gorfforaeth wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd materol berthnasol a ganfuwyd ac a allai fwrw amheuaeth ar allu'r Grŵp a'r rhiant-sefydliad i barhau i ddefnyddio cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw am o leiaf ddeuddeng mis o ddyddiad awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau'r ariannol.

Fodd bynnag, gan na ellir rhagweld yr holl ddigwyddiadau neu amodau y bydd yn wynebu'r Grŵp a'r rhiant-sefydliad yn y dyfodol, nid yw'r datganiad hwn yn gwarantu y gallant barhau'n fusnes hyfyw.

Adrodd ynghylch gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr holl wybodaeth, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilwyr arnynt, sydd yn yr Adroddiad Blynyddol. Y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw'n barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac o'r herwydd, nid ydym fel archwilwyr yn mynegi ein barn arni nac yn rhoi unrhyw fath o sicrwydd yn ei chylch.

O ran archwilio'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth honno'n faterol gyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn sgil archwilio, neu a yw'n ymddangos fel pe bai wedi'i datgan yn anghywir o safbwynt materol berthnasol. Os canfyddwn ddeunydd sy'n ymddangos yn anghyson neu wedi'i gam-ddatgan o safbwynt materol berthnasol, mae gofyn i ni ddilyn gweithdrefnau er mwyn penderfynu a oes cam-ddatgan materol berthnasol yn y datganiadau ariannol neu gam-ddatgan materol berthnasol yn y wybodaeth arall. Os down i'r casgliad, ar sail y gwaith a wnaethom, fod y wybodaeth hon yn cael ei cham-ddatgan mewn modd materol berthnasol, mae gofyn i ni adrodd ar hynny. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ar sail y cyfrifoldebau hyn.

Cyfrifoldebau am y datganiadau ariannol a'r archwiliad

Cyfrifoldebau'r Gorfforaeth mewn perthynas â'r datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth ar dudalen **[*x*]**, y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith perthnasol ac am fodloni ei hun ei bod yn cyflwyno darlun cywir a theg. Mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol hefyd am unrhyw reoli mewnol y tybiant sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys cam-ddatgan materol berthnasol, boed drwy dwyll neu mewn camgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-sefydliad i barhau'n fusnes hyfyw, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a chan ddefnyddio cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw, oni bai fod y Gorfforaeth yn bwriadu dirwyn y Grŵp a'r rhiant-sefydliad i ben neu beidio â gweithredu, neu os nad oes ganddo unrhyw ddewis realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilwyr mewn perthynas ag archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol fod neu nad yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn cynnwys cam-ddatgan materol berthnasol, boed drwy dwyll neu mewn camgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn golygu sicrwydd lefel uchel, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs(y DU) bob amser yn canfod camddatganiadau materol berthnasol sy'n bodoli. Gall camddatganiadau gael eu gwneud drwy dwyll neu mewn camgymeriad ac fe'u hystyrir yn faterol berthnasol os yw'n rhesymol disgwyl iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadau ar benderfyniadau economaidd y gallai defnyddwyr eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Disgrifir rhagor ar ein cyfrifoldebau mewn perthynas ag archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn, yn cynnwys y safbwyntiau, ar gyfer Corfforaeth y sefydliad yn unig, yn unol ag Erthygl 18 yn erthyglau llywodraethu'r sefydliad, ac nid i unrhyw ddiben arall. Wrth fynegi'r safbwyntiau hyn, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac yn gyfrifol i unrhyw un arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo nac unrhyw un a fydd yn gweld yr adroddiad hwn, oni bai bod hynny wedi'i gytuno'n ffurfiol drwy gael ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

Pethau eraill y mae gofyn adrodd arnynt

Ein barn ar faterion eraill a ragnodwyd yng Nghod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach 2015 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ein barn ni, ym mhob modd materol berthnasol:

· mae'r arian a wariwyd o grantiau Llywodraeth Cymru a chronfeydd eraill, o ba ffynhonnell bynnag, ac a weinyddir gan y Sefydliad i ddibenion penodol, wedi'u defnyddio'n briodol i'r dibenion hynny ac, os oedd hynny'n briodol, wedi'u rheoli'n unol â'r holl ddeddfau perthnasol; ac

· mae'r incwm wedi'i ddefnyddio'n unol â memorandwm ariannol a gytunwyd â Llywodraeth Cymru

PricewaterhouseCoopers LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Caerdydd

GRŴP LLANDRILLO MENAI
Datganiadau Cyfunol a Cholegol ynghylch Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

	Nodyn	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2018 GRŴP £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2018 Coleg £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2017 GRŴP £'000	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2017 Coleg £'000
INCWM					
Grantiau gan gyrff cyllido	2	54,366	54,366	54,331	54,331
Eitem eithriadol: Adfachu cyllid	2	75	75	1,169	1,169
Ffioedd dysgu a chontractau addysgol	3	5,861	5,861	5,947	5,947
Incwm arall	4	8,403	8,173	7,351	6,862
Incwm o waddolion a buddsoddiadau	5	44	44	38	38
Cyfanswm yr incwm		68,749	68,519	68,836	68,347
GWARIANT					
Costau staffio cyn costau FRS102	6	47,060	47,060	46,700	46,700
Costau FRS102		2,143	2,143	1,783	1,783
Cyfanswm y costau staffio yn cynnwys costau FRS102		49,203	49,203	48,483	48,483
Eitem Eithriadol		484	484	629	629
Treuliau gweithredol eraill	8	16,654	16,424	17,245	16,756
Dibrisiant ac Amhariadau	10	4,924	4,924	4,541	4,541
Llogau a chostau ariannol eraill cyn FRS102	9	58	58	103	103
FRS102 – Costau llogau		222	222	783	783
Llog a chostau ariannol eraill yn cynnwys FRS102		280	280	886	886
Cyfanswm y treuliau cynhwysfawr am y flwyddyn		71,545	71,315	71,784	71,295
Diffyg cyn enillion a cholledion eraill cyn treth		(2,796)	(2,796)	(2,948)	(2,948)
Gwarged yn sgil gwaredu asedau sefydlog		-	-	686	686
Diffyg cyn treth		(2,796)	(2,796)	(2,262)	(2,262)

GRŴP LLANDRILLO MENAI

Datganiadau Cyfunol a Cholegol ynghylch Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (parhad)

	Nodyn	Blwyddyn 2018 GRŴP £'000	Blwyddyn 2018 Coleg £'000	Blwyddyn 2017 GRŴP £'000	Blwyddyn 2017 Coleg £'000
Diffyg cyn treth		(2,796)	(2,796)	(2,262)	(2,262)
Trethiant		-	-	-	-
Diffyg am y flwyddyn		(2,796)	(2,796)	(2,262)	(2,262)
Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn		9,862	9,862	27,141	27,141
Cyfanswm yr Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn		7,066	7,066	24,879	24,879

GRŴP LLANDRILLO MENAI

Datganiadau Cyfunol a Cholegol ynghylch Newidiadau i Gronfeydd

	Y Cyfrif Incwm a Gwariant	Y gronfa ailbrisio	Cyfanswm heb gynnwys cyfrannau lleiafrifol	Cyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig
	£'000	£'000	£'000	£'000
Y Grŵp a'r Coleg				
Y balans ar 1 Awst 2017	23,723	9,613	33,336	33,336
Diffyg am y flwyddyn	(2,796)	-	(2,796)	(2,796)
Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	9,862	-	9,862	9,862
Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant	308	(308)	-	-
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	7,374	(308)	7,066	7,066
Y Balans ar 31 Gorffennaf 2018	**31,097**	**9,305**	**40,402**	**40,402**
Y Grŵp a'r Coleg				
Y balans ar 1 Awst 2016	(1,464)	9,921	8,457	8,457
Diffyg am y flwyddyn	(2,262)	-	(2,262)	(2,262)
Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	27,141	-	27,141	27,141
Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant	308	(308)	-	-
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	25,187	(308)	24,879	24,879
Y Balans ar 31 Gorffennaf 2017	**23,723**	**9,613**	**33,336**	**33,336**

GRŴP LLANDRILLO MENAI
Mantolenni Cyfunol a Cholegol

	Nodyn	GRŴP 2018 £'000	Coleg 2018 £'000	GRŴP Ailddatgan (nodyn 15) 2017 £'000	Coleg Ailddatgan (nodyn 15) 2017 £'000
Asedau sefydlog					
Asedau sefydlog diriaethol	10	87,122	87,122	84,637	84,637
Buddsoddiadau		56	56	50	50
		87,178	87,178	84,687	84,687
Asedau cyfredol					
Stoc	13	568	568	564	564
Dyledwyr masnachol a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	12	4,811	4,933	4,366	4,260
Buddsoddiadau	14	532	532	1,528	1,528
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb iddo		12,822	12,516	10,902	10,817
		18,733	18,549	17,360	17,169
Llai: Credydwyr – symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn	15	(11,763)	(11,579)	(9,924)	(9,733)
Asedau cyfredol net		6,970	6,970	7,436	7,436
Cyfanswm yr asedau, llai rhwymedigaethau cyfredol		94,148	94,148	92,123	92,123
Llai: Credydwyr – symiau sy'n ddyledus ymhen mwy na blwyddyn	16	(50,365)	(50,365)	(47,987)	(47,987)
Darpariaethau					
Rhwymedigaethau o ran buddion wedi'u diffinio	20	333	333	(7,164)	(7,164)
Darpariaethau eraill	18	(3,714)	(3,714)	(3,636)	(3,636)
Cyfanswm yr asedau net		40,402	40,402	33,336	33,336
Cronfeydd anghyfyngedig					
Y cyfrif incwm a gwariant		31,097	31,097	23,723	23,723
Y gronfa ailbrisio		9,305	9,305	9,613	9,613
Cyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig		40,402	40,402	33,336	33,336

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol sydd ar dudalennau i gan y Gorfforaeth ar 13 Rhagfyr 2018 ac fe'u llofnodwyd ar ei rhan ar y dyddiad hwnnw gan:

Dr R Bichan
Cadeirydd

Mr D Evans
Prif Weithredwr

Mrs K Coughlin
Uwch Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

GRŴP LLANDRILLO MENAI
Datganiad Cyfunol ynghylch Llif Arian

	2018 £'000	2017 £'000
Mewnlif arian o weithgareddau gweithredu		
Diffyg am y flwyddyn	(2,796)	(2,262)
Addasu ar gyfer eitemau anariannol		
Dibrisiant ac amhariadau	4,923	4,541
(Cynnydd)/gostyngiad mewn stoc	(4)	7
(Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr	(184)	922
(Cynnydd) mewn rhagdaliadau, incwm cronedig a dyledwyr Llywodraeth Cymru	(261)	(793)
Cynnydd mewn croniadau	2,186	1,448
(Gostyngiad) mewn credydwyr (yn ddyledus ymhen blwyddyn)	(115)	(167)
(Gostyngiad) mewn incwm gohiriedig	(179)	(1,178)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau	78	(201)
Costau cyllid pensiwn	222	783
Costau pensiynau llai cyfraniadau taladwy	2,143	1,783
Symudiad mewn grantiau cyfalaf gohiriedig	2,861	(370)
Addasu ar gyfer buddsoddi neu weithgareddau cyllido		
Incwm o fuddsoddiadau	(44)	(38)
Llogau taladwy	58	103
Elw o werthu asedau sefydlog	-	(686)
Llif arian net o weithgareddau gweithredu	8,888	3,892
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Derbyniadau o werthu asedau sefydlog	-	748
Incwm o fuddsoddiadau	44	38
Taliadau gan/(i) adneuon ariannol tymor byr	996	1,497
Cynnydd mewn buddsoddiadau	(6)	-
Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog	(7,408)	(2,975)
	(6,374)	(692)
Llif arian o weithgareddau cyllido		
Llogau a dalwyd	(58)	(103)
Yr elfen gyfalaf ar ad-dalu benthyciadau i fanciau	(536)	(705)
	(594)	(808)
Cynnydd mewn arian ac eitemau sy'n cyfateb iddo yn ystod y flwyddyn	**1,920**	**2,392**
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r flwyddyn	10,902	8,510
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y flwyddyn	12,822	10,902

GRŴP LLANDRILLO MENAI
NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2018

1 DATGANIAD YNGHYLCH Y PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Defnyddiwyd y polisïau cyfrifyddu a'r technegau amcangyfrif canlynol yn gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn faterol berthnasol i'r datganiadau ariannol.

Sail y Paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad ynghylch Arferion a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch 2015 (SORP AB AU 2015), y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu i Golegau Cymru o 2017 i 2018, ac yn unol â Safon Cyfrifyddu Ariannol 102 – "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig ac yng Ngweriniaeth Iwerddon" (FRS 102). Mae'r Coleg yn endid sy'n rhoi budd i'r cyhoedd ac felly mae wedi rhoi gofynion perthnasol FRS 102 o ran budd y cyhoedd ar waith.
Er mwyn paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102, mae gofyn defnyddio rhai amcangyfrifon cyfrifyddu pwysig. Yn ogystal, mae gofyn i'r rheolwyr ddefnyddio doethineb wrth roi polisïau cyfrifyddu'r Coleg ar waith.

Sail y Cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y Grŵp a mentrau atodol am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2018. Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys endidau y mae gan y Grŵp reolaeth arnynt drwy fudd ariannol neu ddylanwad sylweddol dros eu penderfyniadau masnachol a'u penderfyniadau mewn perthynas â pholisïau ariannol.

Cynhwysir endidau yn y cysoni o'r adeg y sicrhaodd y Grŵp reolaeth arnynt ac ni chânt eu cynnwys pan gollir y rheolaeth honno. Dilëwyd trafodion o fewn y Grŵp a defnyddiwyd polisïau cyfrifyddu unffurf ar draws y Grŵp i ddibenion y datganiadau ariannol cyfunol.

Sail y Cyfrifyddu

Paratoir y datganiadau ariannol yn unol â'r confensiwn mewn perthynas â chost hanesyddol fel y'i haddaswyd yn sgil ailbrisio asedau sefydlog penodol.

Busnes hyfyw

Amlinellir yn yr Adroddiad Blynyddol weithgareddau'r Grŵp, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad a'i berfformiad yn y dyfodol. Disgrifir sefyllfa ariannol y Grŵp, ei lif arian, ei hylifedd a'i fenthyciadau, yn y Datganiadau Ariannol a'r Nodiadau cysylltiedig. Ar hyn o bryd, mae gan y Grŵp £1.1m (2017: £1.7m) o fenthyciadau heb eu had-dalu i fancwyr, ar delerau a drafodwyd rhwng 1996 a 2010. Mae rhagolygon y Grŵp mewn perthynas â'r benthyciadau a'r rhagamcaniadau ariannol hyn yn dangos y gall weithredu'n unol â'r cyfamodau hyd y gellir rhagweld. Felly, mae'n rhesymol i'r Grŵp gymryd fod ganddo ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am y cyfnod y gellir ei ragweld ac o'r herwydd, bydd yn parhau i baratoi ei Ddatganiadau Ariannol ar y sail ei fod yn fusnes hyfyw.

NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2018

1 DATGANIAD YNGHYLCH Y PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Cydnabod Incwm

Mae grantiau refeniw'r Llywodraeth yn cynnwys grantiau rheolaidd gan gyrff cyllido a grantiau eraill a chânt eu cydnabod o dan y model croniadau fel y mae FRS 102 yn caniatáu. Mesurir grantiau rheolaidd cyrff cyllido'n unol â'r amcangyfrifon gorau ar gyfer y cyfnod y maent yn dderbyniadwy a dibynnant ar y ffrwd incwm penodol sydd dan sylw. Fel rheol, pennir incwm terfynol y grantiau ar ddiwedd y broses gysoni diwedd blwyddyn gyda'r corff cyllido wedi i'r flwyddyn ddod i ben, yn ogystal â chanlyniadau unrhyw archwiliadau cyllid.

Mae'r grant rheolaidd a dderbynnir gan CCAUC yn cynrychioli'r dyraniadau ariannol sydd i'w priodoli i'r flwyddyn ariannol bresennol ac fe'i credydir yn uniongyrchol i'r Datganiad ynghylch Incwm Cynhwysfawr.

Pan gaiff rhan o grant y llywodraeth ei ohirio, cydnabyddir yr elfen ohiriedig fel incwm gohiriedig o dan y credydwyr ac fe'i dosrennir rhwng y rhai sy'n ddyledus ymhen blwyddyn a'r rhai sy'n ddyledus ymhen mwy na blwyddyn fel y bo'n briodol.

Cydnabyddir grantiau o ffynonellau anllywodraethol yn incwm pan fydd gan y Coleg hawl i'r incwm a phan fodlonir amodau sy'n ymwneud â pherfformiad. Caiff incwm a dderbynnir cyn bodloni amodau sy'n ymwneud â pherfformiad ei gydnabod fel incwm gohiriedig o dan y credydwyr ar y fantolen ac fe'i rhyddheir yn incwm pan fodlonir yr amodau.

Grantiau Cyllid Cyfalaf

Caiff grantiau cyfalaf y Llywodraeth eu cyfalafu a'u trin fel incwm gohiriedig a'u cydnabod yn incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased o dan y model croniadau fel y mae FRS 102 yn caniatáu. Cydnabyddir grantiau cyfalaf anllywodraethol eraill yn incwm pan fydd gan y Coleg hawl i'r cyllid ar yr amod ei fod yn bodloni gofynion sy'n ymwneud â pherfformiad. Caiff incwm a dderbynnir cyn bodloni amodau sy'n ymwneud â pherfformiad ei gydnabod fel incwm gohiriedig o dan y credydwyr ar y fantolen ac fe'i rhyddheir yn incwm pan fodlonir yr amodau.

Incwm o Ffioedd

Dangosir incwm o ffioedd dysgu gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt ac fe'i cofnodir yn y cyfnod y'i derbynnir.

Incwm o Fuddsoddiadau

Caiff pob incwm o adneuon tymor byr ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y caiff ei ennill ar sail dderbyniadwy.

Trefniadau o ran Gweithredu fel Asiantaeth

Gweithreda'r Grŵp fel asiant mewn perthynas â chasglu a thalu rhai grantiau cynhaliaeth dewisol. Lle mae'r Coleg yn agored i risg isel iawn neu'n cael budd economaidd isel iawn mewn perthynas â'r trafodyn, caiff taliadau perthnasol a dderbynnir gan y cyrff cyllido ac unrhyw alldaliadau dilynol i fyfyrwyr eu heithrio o incwm a gwariant y Coleg.

GRŴP LLANDRILLO MENAI
NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL (parhad)
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2018

1 DATGANIAD YNGHYLCH Y PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Buddion wedi Ymddeol

Darperir buddion ymddeol i weithwyr y Grŵp gan Y Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Cynlluniau buddion diffiniedig a gyllidir yn allanol a'u heithrio o Ail Bensiwn y Wladwriaeth yw'r rhain.

Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS)

Cynllun na chaiff ei gyllido yw'r TPS. Cyfrifir cyfraniadau i'r TPS er mwyn gwasgaru cost pensiynau dros oes waith gweithwyr gyda'r Coleg, fel bod cost pensiwn yn ganran eithaf gwastad o'r gyflogres bensiynadwy yn awr ac yn y dyfodol. Pennir y cyfraniadau gan actiwarïaid cymwys ar sail prisio gan ddefnyddio dull budd dichonol.

Mae'r TPS yn gynllun aml-gyflogwr ac nid oes digon o wybodaeth ar gael i gyfrifyddu ar sail buddion diffiniedig. Felly, caiff y TPS ei drin fel cynllun cyfraniadau diffiniedig a chydnabyddir y cyfraniadau fel traul yn y datganiad incwm yn y cyfnodau y rhydd y gweithwyr eu gwasanaeth.

Cynllun Llywodraeth Leol Gwynedd (LGPS)

Mae'r LGPS yn gynllun a gyllidir. Mesurir asedau'r LGPS gan ddefnyddio gwerthoedd teg wrth gau. Mesurir rhwymedigaethau'r LGPS gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, a gostyngir eu gwerth ar y raddfa adennill yn achos bond corfforaethol o'r ansawdd uchaf sy'n gyfwerth â'r rhwymedigaeth o ran tymor a gwerth. Ceir prisiad actiwariadd unwaith o leiaf bob tair blynedd ac fe'u diweddarir ar ddyddiad pob mantolen. Y symiau a godir ar y gwarged gweithredu yw costau'r gwasanaethau cyfredol a chostau cyflwyno'r cynllun, newidiadau o ran buddion, setliadau a chwtogiadau. Cânt eu cynnwys yn rhan o gostau staffio fel y digwyddant.

Yn ogystal, cydnabyddir llog net ar atebolrwydd/ased buddiannau diffiniedig net yn y Datganiad ynghylch Incwm Cynhwysfawr ac mae'n cynnwys cost llog ar rwymedigaeth ddiffiniedig y budd a'r incwm o log ar asedau'r cynllun, a gyfrifwyd dwy luosi gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod â'r gyfradd a ddefnyddiwyd i ddisgowntio rhwymedigaethau'r budd. Caiff y gwahaniaeth rhwng yr incwm o log asedau'r cynllun a'r gwir adenillion ar asedau'r cynllun ei gydnabod yn y costau llog a'r costau ariannol eraill.

Cydnabyddir enillion a cholledion actiwaraidd ar unwaith yn yr enillion a'r colledion actiwaraidd.

Pensiynau Uwch

Telir gwir gost unrhyw bensiwn uwch parhaus i gyn-aelod o staff gan y Grŵp yn flynyddol. Yn y flwyddyn y mae aelod staff yn ymddeol, codir yn llawn ar gyfrif incwm a gwariant y Grŵp yr amcangyfrif o gost ddisgwyliedig unrhyw godiad i bensiwn parhaus y cyn aelod staff hwnnw yn y dyfodol. Yn y blynyddoedd dilynol, codir tâl ar y darpariaethau yn y fantolen, gan ddefnyddio'r dull a ragnodwyd gan AdAS.

GRŴP LLANDRILLO MENAI
NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2018

1 DATGANIAD YNGHYLCH Y PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Buddion wedi Ymddeol (parhad)

Buddion cyflogaeth tymor byr

Cydnabyddir buddion cyflogaeth tymor byr, fel cyflogau ac absenoldebau a ddigolledir (tâl gwyliau) fel traul yn y flwyddyn y rhydd y gweithwyr eu gwasanaeth i'r Coleg. Cronnir unrhyw fuddion nas defnyddiwyd ac fe'u mesurir fel y swm ychwanegol y mae'r Coleg yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawl nas defnyddiwyd.

Asedau Sefydlog Diriaethol

Tir ac adeiladau

Ar y fantolen, nodir tir ac adeiladau a etifeddwyd gan yr awdurdod addysg lleol adeg prisio ar sail cost adnewyddu y lleihawyd ei werth, gan nad yw'n hawdd canfod gwerth y defnydd cyfredol ar y farchnad agored. Mae gwelliannau i adeiladau a wnaed ers yr ymgorffori wedi'u cynnwys yn y fantolen ar gost. Nid yw tir rhydd-ddaliadol wedi'i ddibrisio. Dibrisir adeiladau rhydd-ddaliadol dros y cyfnod y disgwylir iddynt fod yn economaidd ddefnyddiol i'r Grŵp, sef rhwng 20 a 50 mlynedd. Mae gan y Grŵp bolisi i ddibrisio addasiadau sylweddol a wnaed i adeiladau dros y cyfnod y byddant yn economaidd ddefnyddiol, sef rhwng 20 a 50 mlynedd. Mae'r gost yn cynnwys pris prynu'r ased yn wreiddiol a chostau sy'n deillio o wneud yr ased yn barod ar gyfer y defnydd y'i bwriadwyd.

Pan gaiff tir ac adeiladau eu caffael gyda chymorth grantiau penodol, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel uchod. Caiff y grantiau perthynol eu credydu i gyfrif grant cyfalaf gohiriedig, ac fe'u rhyddheir i'r cyfrif incwm a gwariant dros y cyfnod y disgwylir i'r ased fod yn economaidd ddefnyddiol, ar sail sy'n gyson â'r polisi dibrisio.

Ni chaiff costau ariannol, sy'n deillio'n uniongyrchol o adeiladu tir ac adeiladau, eu cyfalafu fel rhan o gost yr asedau hynny.

Os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n dangos y gall cost cario unrhyw ased sefydlog fod yn anadferadwy, gwneir arolwg o'r amhariad (y lleihad parhaol yng ngwerth yr ased sefydlog).

Wrth fabwysiadu FRS 102, dilynodd y Grŵp y ddarpariaeth drosiannol er mwyn cadw llyfrwerth y tir a'r adeiladau, a ail-brisiwyd yn 1994 ar gost dybiedig, ac er mwyn peidio â mabwysiadu polisi o ailbrisio'r eiddo hwn yn y dyfodol.

Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Cyfrifir gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu ar gost, yn seiliedig ar werth tystysgrifau penseiri a chostau uniongyrchol eraill, a ysgwyddwyd hyd at 31 Gorffennaf. Ni chânt eu dibrisio hyd nes y dechreuir eu defnyddio.

GRŴP LLANDRILLO MENAI
NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2018

1 DATGANIAD YNGHYLCH Y PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Gwariant dilynol ar asedau sefydlog diriaethol cyfredol

Pan geir gwariant sylweddol ar asedau sefydlog diriaethol, fe'i codir ar y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y'i gwnaed, oni bai y bydd yn cynyddu buddion y Grŵp yn y dyfodol. Os bydd, caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio ar y sail berthnasol.

Cyfarpar

Caiff gwerth cyfarpar (ac eithrio cyfarpar cyfrifiadurol) sy'n costio llai na £5,000 yr eitem unigol ei ddileu a'i roi yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod caffael. Caiff pob cyfarpar arall ei gyfalafu ar gost. Cynhwysir cyfarpar a etifeddwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol yn y fantolen ar ei werth net ar bapur y dyddiad hwnnw.

Caiff cyfarpar a etifeddwyd ei ddibrisio ar sail llinell syth dros weddill ei oes economaidd ddefnyddiol i'r Grŵp. Caiff pob cyfarpar arall ei ddibrisio dros ei oes economaidd ddefnyddiol, gan ddefnyddio'r sail llinell syth fel a ganlyn:

Cyfarpar cyffredinol	5 - 10 mlynedd
Cyfarpar cyfrifiadurol	3 blynedd
Cerbydau modur	3 blynedd

Pan geir cyfarpar gyda chymorth grantiau penodol, caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio'n unol â'r polisi uchod, a chaiff y grant perthynol ei gredydu i gyfrif grant cyfalaf gohiriedig, a'i ryddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros y cyfnod y disgwylir i'r cyfarpar perthynol fod yn economaidd ddefnyddiol.

Os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n dangos y gall cost cario unrhyw ased sefydlog fod yn anadferadwy, gwneir arolwg o'r amhariad (y lleihad yng ngwerth yr ased sefydlog). Cydnabyddir unrhyw ddiffyg rhwng gwerth cario asedau sefydlog a'u gwerth adferadwy fel amhariadau. Cydnabyddir colledion yn sgil amhariadau yn y Datganiad ynghylch Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Asedau dan Brydles

Caiff costau sy'n ymwneud â phrydlesi gweithredol eu codi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Caiff asedau sydd dan brydles ariannol eu cyfalafu a'u dibrisio dros dymor y brydles neu dros eu hoes economaidd ddefnyddiol, pa un bynnag yw'r byrraf. Caiff y rhwymedigaeth berthynol ei chynnwys fel credydwr yn y fantolen. Caiff y taliadau prydles sy'n uwch na rhwymedigaeth y brydles eu creu fel costau ariannol a gaiff eu hamorteiddio dros bob tymor prydles, fel bod cost ar raddfa gyson yn cael ei chodi ar weddill y rhwymedigaethau sydd ar ôl.

Stoc

Caiff stoc ei ddatgan yn ôl ei gost a'i werth dichonadwy net, pa un bynnag yw'r isaf. Pan fydd angen, gwneir darpariaeth ar gyfer stoc anarferedig, stoc sy'n symud yn araf a stoc diffygiol. Seilir da byw amaethyddol ar werth cost tybiedig, sef 75% o'r gwerth ar y farchnad agored.

Cynnal a Chadw Adeiladau

Codir cost cynnal a chadw rheolaidd ar y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y gwneir y gwaith.

GRŴP LLANDRILLO MENAI
NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2018

1 DATGANIAD YNGHYLCH Y PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU
Trethiant

Ystyrir bod y Grŵp wedi llwyddo yn y profion a nodir ym Mharagraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac felly, mae'n bodloni'r diffiniad o endid elusennol i ddibenion treth gorfforaethol yn y Deyrnas Unedig. Felly, mae'n bosibl y gall y Grŵp gael ei eithrio o dreth ar incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd yn y categorïau y sonnir amdanynt ym Mhennod 3 Rhan 11 Deddf Treth Gorfforaethol 2010 neu adran 256 Deddf Treth ar Enillion Taladwy 1992, i'r graddau bod incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl i ddibenion elusennol.

Mae'r Grŵp wedi'i eithrio'n rhannol yn achos Treth ar Werth, felly ni all ond adfer elfen fechan o'r TAW a godwyd ar ei fewnbynnau. Caiff TAW anadferadwy ar fewnbynnau ei gynnwys yng nghostau mewnbynnau o'r fath a'i ychwanegu at gost asedau sefydlog diriaethol fel y bo'n briodol, pan fydd y mewnbynnau eu hunain yn asedau sefydlog diriaethol wrth natur. Rhaid i is-gwmnïau'r Grŵp dalu treth gorfforaethol a TAW fel y mae'n rhaid i unrhyw sefydliad masnachol ei wneud.

Buddsoddiadau

Caiff buddsoddiadau a restrir ac a ddelir fel asedau anghyfredol a chyfredol, a all gynnwys buddsoddiadau a restrir, gael eu datgan yn ôl eu gwerth teg, gyda symudiadau'n cael eu cydnabod yn yr Incwm Cynhwysfawr.

Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb iddo

Mae arian parod yn cynnwys arian sydd mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy ar gais, a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar gais os gellir eu cael o fewn 24 awr heb orfod wynebu cosb.

Mae eitemau sy'n cyfateb i arian parod yn fuddsoddiadau tymor byr hynod hylifol y gellir eu newid yn rhwydd i symiau hysbys o arian parod heb fawr ddim risg y bydd newid yn eu gwerth. Pan fydd yn aeddfedu 3 mis neu'n gynt ar ôl dyddiad i gaffael, mae buddsoddiad yn cyfrif fel eitem sy'n cyfateb i arian parod.

Cronfa Ariannol Wrth Gefn

Mae grant Cronfa Ariannol Wrth Gefn AdAS ar gael i fyfyrwyr yn unig. Yn y mwyafrif o achosion, gweithredu fel asiant talu yn unig a wna'r Grŵp. O dan yr amgylchiadau hyn, ni chaiff y grantiau a'r gwariant perthynol eu cynnwys yn y cyfrif Incwm a Gwariant. Mae'r incwm a'r gwariant a gyfunwyd yn natganiadau ariannol y Grŵp yn ymwneud â'r cludiant a'r gofal plant a ddarperir gan y Grŵp ar ran y myfyrwyr, yn ogystal â'r costau staffio sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r gronfa.

Atebolrwydd Ariannol ac Ecwiti

Dosberthir atebolrwydd ariannol ac ecwiti yn ôl sylwedd atebolrwydd contractiol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurf gyfreithiol yr offeryn ariannol.

Caiff yr holl fenthyciadau, buddsoddiadau ac adneuon tymor byr a ddelir gan y Grŵp eu hystyried yn offerynnau ariannol sylfaenol yn unol â FRS 102. Yn y lle cyntaf, cofnodir yr offerynnau hyn ar bris y trafodyn llai unrhyw gostau trafod (cost hanesyddol). Mae'n ofynnol yn ôl FRS 102 bod offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu mesur wedi hynny ar gost wedi'i hamorteiddio. Fodd bynnag, mae'r Coleg wedi cyfrifo nad yw'r gwahaniaeth rhwng y gost hanesyddol a'r gost wedi'i hamorteiddio yn faterol berthnasol ac felly nodwyd yr offerynnau ariannol hyn ar y fantolen yn ôl cost hanesyddol. Ni chaiff benthyciadau a buddsoddiadau sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy ymhen blwyddyn eu disgowntio.

Darpariaethau a Rhwymedigaethau Amodol

Cydnabyddir darpariaethau

- pan fydd gan y Coleg ddyletswydd gyfreithiol neu ddeongliadol gyfredol o ganlyniad i rywbeth a ddigwyddodd yn y gorffennol
- pan mae'n bosibl y bydd gofyn trosglwyddo budd economaidd er mwyn datrys y rhwymedigaeth, a
- phan ellir rhagamcanu gwerth y rhwymedigaeth mewn modd dibynadwy.

GRŴP LLANDRILLO MENAI
NODIADAU I GYD-FYND Â'R DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2018

1 DATGANIAD YNGHYLCH Y PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Pan fydd effaith gwerth yr arian o ran amser yn faterol berthnasol, cydnabyddir y swm a ddisgwylir y bydd ei angen i fodloni'r rhwymedigaeth ar ei werth presennol, gan ddefnyddio cyfradd disgownt cyn-treth. Cydnabyddir dirwyn y disgownt i ben fel cost ariannol yn y datganiad ar incwm cynhwysfawr yn y cyfnod y cyfyd.

Mae rhwymedigaeth amodol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n gosod ar y Coleg rwymedigaeth bosibl, na chaiff ei chadarnhau ond yn sgil rhywbeth ansicr sy'n digwydd neu ddim yn digwydd yn y dyfodol, nad yw o dan reolaeth lwyr y Coleg. Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond ei bod yn debygol na fydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur yr ymrwymiad mewn modd dibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau amodol eu cydnabod yn y fantolen ond fe'u datgelir yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

Dyfarniadau mewn perthynas â rhoi polisïau cyfrifyddu ar waith a ffynonellau allweddol o ansicrwydd mewn amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, bu'n rhaid i'r rheolwyr ddyfarnu ynghylch y canlynol:

• Penderfynu a yw prydlesi y cytunodd y Coleg iddynt, naill ai fel prydleswr neu ddaliwr prydles, naill ai'n brydlesi gweithredol neu'n brydlesi cyllid. Mae'r penderfyniadau hyn yn ddibynnol ar asesu a yw'r risgiau a'r budd a geir o fod yn berchen arnynt wedi'u trosglwyddo fesul prydles o'r prydleswr i'r sawl sy'n dal y brydles.

• Penderfynu a oes arwyddion bod rhywbeth wedi amharu ar asedau diriaethol y Grŵp. Mae'r ffactorau a ystyrir wrth wneud penderfyniadau o'r fath yn cynnwys hyfywedd economaidd a pherfformiad ariannol disgwyliedig yr ased yn y dyfodol, a lle mae'n rhan o uned fwy sy'n cynhyrchu arian, hyfywedd a pherfformiad disgwyliedig yr uned honno yn y dyfodol.

Ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd mewn amcangyfrifon

- Asedau Sefydlog Diriaethol

Dibrisir asedau sefydlog diriaethol dros eu hoes ddefnyddiol, gan ystyried gwerthoedd gweddilliol lle y bo'n briodol. Asesir oes wirioneddol yr asedau a'r gwerthoedd gweddilliol yn flynyddol a gall amrywio, yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Wrth ailasesu oes ased, ystyrir ffactorau fel arloesedd technolegol a rhaglenni cynnal a chadw. Wrth asesu gwerth gweddilliol, ystyrir materion fel amodau'r farchnad yn y dyfodol, gweddill oes yr ased a'r gwerthoedd gwaredu a ragwelir.

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gwerth presennol rhwymedigaeth y cynllun LGPS sydd â buddion wedi'u diffinio'n dibynnu ar nifer o ffactorau a bennir ar sail acti waraidd gan ragdybio sawl peth. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth bennu'r gost net (incwm) ar gyfer pensiynau'n cynnwys y gyfradd ddisgownt. Bydd unrhyw newidiadau yn y rhagdybiaethau hyn, a ddatgelir yn nodyn 20, yn cael effaith ar swm y rhwymedigaeth bensiwn a gaiff ei chario.

2 GRANTIAU GAN GYRFF CYLLIDO

	GRŴP 2018 £'000	Coleg 2018 £'000	GRŴP 2017 £'000	Coleg 2017 £'000
Grant Rheolaidd AdAS	41,017	41,017	40,775	40,775
Dysgu Seiliedig ar Waith	7,260	7,260	6,650	6,650
Rhyddhau grant cyfalaf gohiriedig AdAS	2,152	2,152	2,924	2,924
Grant AdAS i Ddysgwyr ag Anawsterau/Anableddau Dysgu	1,629	1,629	1,709	1,709
Grant Rheolaidd CCAUC	523	523	533	533
Grantiau eraill AdAS	1,785	1,785	1,740	1,740
	54,366	54,366	54,331	54,331

Mae'r addasiad i'r incwm eithriadol yn cyfeirio at addasiad a wnaed i'r ddarpariaeth mewn perthynas ag adfachu sy'n gysylltiedig â chyllid 2014/15. Cyrhaeddwyd y targed o ran adfachu cyllid yn 2016/17 a chadarnhaodd Llywodraeth Cymru y gellid rhyddhau £75k arall (2017: £1.169m) o'r ddarpariaeth adfachu ar gyfer 2014/15 ac, er mwyn bod yn gyson â'r flwyddyn flaenorol, datgelwyd hyn fel eitem eithriadol.

Yn ogystal, gwnaed darpariaeth ar gyfer y targed o ran niferoedd myfyrwyr nas cyrhaeddwyd yn 2017/18 ac mae hyn wedi'i gynnwys yng ngwerth grant rheolaidd AdAS uchod.

3 FFIOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSGOL

	GRŴP 2018 £'000	Coleg 2018 £'000	GRŴP 2017 £'000	Coleg 2017 £'000
Myfyrwyr Addysg Uwch o'r Deyrnas Unedig	3,927	3,927	4,045	4,045
Myfyrwyr Addysg Bellach o'r Deyrnas Unedig	1,350	1,350	1,314	1,314
Myfyrwyr o du allan yr Undeb Ewropeaidd	156	156	136	136
Cyfanswm y ffioedd a dalwyd gan neu ar ran myfyrwyr unigol	5,433	5,433	5,495	5,495
Contractau Addysgol:				
Incwm Breinio	428	428	452	452
	5,861	5,861	5,947	5,947

4 INCWM ARALL

	GRŴP 2018 £'000	Coleg 2018 £'000	GRŴP 2017 £'000	Coleg 2017 £'000
Cronfeydd Ewropeaidd	2,220	2,220	1,367	1,367
Arlwyo (ffreuturau a bwytai)	1,200	1,200	1,272	1,272
Gweithgareddau ffermio	634	634	641	641
Incwm o grantiau eraill	838	838	811	811
Gweithgareddau eraill sy'n cynhyrchu incwm	3,511	3,281	3,260	2,771
	8,403	8,173	7,351	6,862

5 INCWM O WADDOLION A BUDDSODDIADAU

	GRŴP	Coleg	GRŴP	Coleg
	2018	2018	2017	2017
	£'000	£'000	£'000	£'000
Incwm o gyllid pensiwn	0	0	0	0
Llog ar adneuon ariannol	44	44	38	38
	44	44	38	38

6 COSTAU STAFFIO

Isod, nodir faint o bobl cyfwerth ag amser llawn (yn cynnwys deiliaid swyddi uwch) a gyflogir gan y Grŵp bob mis ar gyfartaledd.

	2018	2017
	Nifer	Nifer
Yr Adrannau Addysgu	803	826
Gwasanaethau Cefnogi'r Addysgu	172	168
Gwasanaethau cefnogi eraill	133	134
Gweinyddu a gwasanaethau canolog	55	56
Adeiladau	41	40
Arlwyo a Mannau Preswylio	28	28
Gweithgareddau ffermio	6	6
	1,238	1,258

6 COSTAU STAFFIO

Costau staffio'r bobl uchod

	Y Grŵp a'r Coleg 2018 £'000	Y Grŵp a'r Coleg 2017 £'000
Yr Adrannau Addysgu	35,910	36,073
Gwasanaethau Cefnogi'r Addysgu	5,814	5,629
Gwasanaethau cefnogi eraill	1,341	1,197
Gweinyddu a gwasanaethau canolog	4,325	4,229
Adeiladau	1,278	1,193
Arlwyo a Mannau Preswylio	581	558
Gweithgareddau ffermio	171	158
Costau ymddeol ac ad-drefnu	266	75
	49,686	49,112

Dadansoddwyd yn ôl:

	Y Grŵp a'r Coleg 2018 £'000	Y Grŵp a'r Coleg 2017 £'000
Tâl a chyflogau	37,202	37,309
Costau nawdd cymdeithasol	3344	3401
Costau pensiwn (yn cynnwys FRS102)	8,390	7,698
Costau ymddeol ac ad-drefnu	266	75
	49,202	48,483
Costau eithriadol o ran ad-drefnu	484	629
	49,686	49,112

7 DEILIAID SWYDDI UWCH

Y diffiniad o ddeiliaid swyddi uwch yw Prif Weithredwr y Grŵp a deiliaid swyddi uwch eraill y mae'r Corff Llywodraethu wedi'u dewis i ddibenion erthyglau llywodraethu'r Grŵp mewn perthynas â phenodi a dyrchafu staff a benodir gan y Corff Llywodraethu.

	2018 Nifer	2017 Nifer
Nifer y deiliaid swyddi uwch, yn cynnwys Prif Weithredwr y Grŵp:	6	7

Nifer y deiliaid swyddi uwch a staff eraill a dderbyniodd enillion, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys buddion o fath arall, ar y cyfraddau a ganlyn:

	Deiliaid swyddi uwch		Staff eraill	
	2018 Nifer	2017 Nifer	2018 Nifer	2017 Nifer
Rhwng £60,001 a £70,000	0	0	15	16
Rhwng £70,001 a £80,000	0	0	0	0
Rhwng £80,001 a £90,000	0	0	0	0
Rhwng £90,001 a £100,000	0	0	0	1
Rhwng £100,001 a £110,000	1	2	0	0
Rhwng £110,001 a £120,000	1	0	0	0
Rhwng £120,001 a £130,000	3	3	0	0
Rhwng £130,001 a £140,000	0	0	0	0
Rhwng £140,001 a £150,000	0	0	0	0
Rhwng £150,001 a £160,000	0	1	0	0
Rhwng £160,001 a £170,000	1	1	0	0
	6	**7**	**15**	**17**

7 DEILIAID SWYDDI UWCH (parhad)

Mae enillion deiliaid swyddi uwch yn cynnwys y canlynol:

	2018 £'000	2017 £'000
Cyflog (yn cynnwys taliadau ychwanegol a chodiadau cyflog)	743	711
Buddion o fath arall	9	10
	752	721
Cyfraniadau pensiwn	132	120
Cyfanswm yr enillion	884	841

Mae'r enillion uchod yn cynnwys y symiau a dalwyd i'r deiliad swydd uwch sy'n derbyn y cyflog uchaf:

	2018 £'000	2017 £'000 Deiliad swydd newydd	2017 £'000 Wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn
Cyflog (yn cynnwys taliadau ychwanegol a chodiadau cyflog)	159	155	26
Buddion o fath arall	2	2	6
	161	157	32
Cyfraniadau pensiwn	32	29	0

Iawndal a dalwyd i gyn-reolwyr allweddol yn sgil colli swydd

	2018 £'000	2017 £'000
	0	79

Roedd yr iawndal am golli swydd yn 2017 yn ymwneud â 2 Bennaeth Cynorthwyol a ddiswyddwyd yn wirfoddol yn ystod y flwyddyn.

Ni dderbyniodd aelodau'r Gorfforaeth, ac eithrio'r Prif Weithredwr, unrhyw dâl gan y Grŵp heblaw i'w digolledu am gostau teithio a threuliau cynhaliaeth y bu'n rhaid iddynt eu hysgwyddo wrth gyflawni eu dyletswyddau.

GWEITHGAREDDAU TRAMOR – ac eithrio gweithgareddau tramor myfyrwyr

Ysgwyddwyd y costau net a ganlyn yn ystod 2017-18 mewn perthynas â gweithgareddau tramor a gynhaliwyd yn unol â'r strategaeth a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr. Derbyniwyd grantiau i gynorthwyo gyda nifer o ymweliadau.

	Teithio a Llety £	Cynhaliaeth £	Costau Eraill £	Nifer yr Ymweliadau Nifer
Llywodraethwyr	0	0	0	0
Deiliaid Swyddi Uwch	252	50	0	1
Unigolion eraill	758	150	0	4

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2017

	Teithio a Llety £	Cynhaliaeth £	Costau Eraill £	Nifer yr Ymweliadau Nifer
Llywodraethwyr	0	0	0	0
Deiliaid Swyddi Uwch	0	0	0	0
Unigolion eraill	4,800	850	1,705	19

8 TREULIAU GWEITHREDOL ERAILL

	GRŴP 2018 £'000	Coleg 2018 £'000	GRŴP 2017 £'000	Coleg 2017 £'000
Yr Adrannau Addysgu	4,703	4,703	4,612	4,612
Gwasanaethau Cefnogi'r Addysgu	195	195	203	203
Gwasanaethau cefnogi eraill	406	406	350	350
Gweinyddu a gwasanaethau canolog	1,880	1,880	2,208	2,208
Gwariant addysgol cyffredinol	1,749	1,749	1,796	1,796
Costau mewn perthynas ag adeiladau – Costau Rhedeg	3,432	3,432	3,232	3,232
Costau mewn perthynas ag adeiladau – Costau Cynnal a Chadw	1,798	1,798	1,994	1,994
Costau mewn perthynas ag adeiladau – Rhenti a Phrydlesi	307	307	284	284
Cynnal a Chadw Hir Dymor	150	150	150	150
Treuliau eraill	2,034	1,804	2,416	1,927
Cyfanswm	16,654	16,424	17,245	16,756

Mae'r treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:	GRŴP 2018 £'000	Coleg 2018 £'000	GRŴP 2017 £'000	Coleg 2017 £'000
Taliadau i Archwilwyr:				
Archwilio datganiadau ariannol	38	38	37	37
Archwilio Mewnol	20	20	20	20
Gwasanaethau eraill gan archwilwyr mewnol	12	12	0	0
Llogi asedau dan brydlesi gweithredol	2	2	2	2

9 LLOG A CHOSTAU ARIANNOL ERAILL

	Y Grŵp a'r Coleg 2018 £'000	Y Grŵp a'r Coleg 2017 £'000
Ar fenthyciadau banc:		
Yn ad-daladwy ymhen pum mlynedd, mewn rhandaliadau	14	50
Yn ad-daladwy'n gyfan gwbl neu'n rhannol ymhen mwy na phum mlynedd	44	53
	58	103
Costau cyllid pensiwn	222	783
Cyfanswm	280	886

10 Asedau sefydlog diriaethol (Y Grŵp a'r Coleg)

	Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadol £'000	Asedau sy'n cael eu Hadeiladu £'000	Ased Treftadaeth – Gwaith Celf £'000	Cyfarpar £'000	Cerbydau Modur £'000	Asedau a ddelir i'w gwerthu £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad							
Ar 1 Awst 2017	121,754	966	5	12,265	34	-	135,024
Ychwanegiadau		6,942		466			7,408
Ailddynodi	(331)	(259)				590	-
Amhariad	(270)						(270)
Ar 31 Gorffennaf 2018	121,153	7,649	5	12,731	34	590	142,162
Dibrisiant							
Ar 1 Awst 2017	39,731	-	-	10,652	4	-	50,387
Tâl am y flwyddyn	3,497			1,154	2		4,653
Ailddynodi	(215)					215	-
Gwaredu							
Ar 31 Gorffennaf 2018	43,013	-	-	11,806	6	215	55,040
Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2018	**78,140**	**7,649**	**5**	**925**	**28**	**375**	**87,122**
Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2017	**82,023**	**966**	**5**	**1,613**	**30**	**-**	**84,637**

(i) Cafodd y buddiannau rhydd-ddaliadol mewn tir ac adeiladau a ddefnyddid gan y Grŵp, ac a oedd ym meddiant Cyngor Sir Clwyd yn flaenorol, eu trosglwyddo'n ffurfiol i'r Grŵp ar 1 Ebrill 1993. Mae gwerth y tir a'r adeiladu fel y'i cynhwysir yn y fantolen yn adlewyrchu prisiad y Syrfewyr Siartredig, Chestertons, a seiliwyd ar y gost adnewyddu wedi'i dibrisio, ar 14 Gorffennaf 1994. Cynhwyswyd asedau sefydlog diriaethol eraill a etifeddwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol adeg yr ymgorffori yn ôl eu gwerth net ar bapur ar 1 Ebrill 1993.

(ii) Yn unol â thelerau Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992, ymddiriedwyd teitl yr holl asedau a ddefnyddiwyd gan y Grŵp cyn 1 Ebrill 1993 i'r Grŵp ar y dyddiad hwnnw.

(iii) Yn ogystal â'r asedau a drosglwyddwyd ar 1 Ebrill 1993, prynodd y Grŵp adeiladau yn Y Rhyl ac yn Ninbych, a defnyddia sawl eiddo ar brydles ledled Gogledd Cymru. Defnyddia'r Grŵp adeiladau ysgolion i gynnal cyrsiau cymunedol.

(iv) Cyllidwyd tir ac adeiladau sydd â gwerth net o £7,019,000 ar bapur o gronfeydd y trysorlys. Pe gwerthid yr asedau hyn, byddai'n rhaid i'r Grŵp naill ai ildio i Lywodraeth Cymru yr enillion a gafwyd yn sgil eu gwerthu neu eu defnyddio'n unol â'r memorandwm ariannol gyda Llywodraeth Cymru.

(v) Dau eiddo yn Ninbych yw'r asedau a ddelir i'w gwerthu.

11 Buddsoddiadau Anghyfredol

	GRŴP 2018 £'000	GRŴP 2017 £'000
Buddsoddi mewn Cyfranddaliadau	56	50
Cyfanswm	56	50

12 Dyledwyr masnachol a symiau eraill sy'n dderbyniadwy

	GRŴP 2018 £'000	Coleg 2018 £'000	GRŴP 2017 £'000	Coleg 2017 £'000
Symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn:				
Dyledwyr masnachol	963	963	779	779
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	1,041	1,163	1,985	1,879
Symiau sy'n ddyledus gan Lywodraeth Cymru a chyrff cysylltiedig	2,807	2,807	1,602	1,602
Cyfanswm	4,811	4,933	4,366	4,260

13 Stoc

	GRŴP 2018 £'000	Coleg 2018 £'000	GRŴP 2017 £'000	Coleg 2017 £'000
Stoc	568	568	564	564

Mae'r stoc yn cyfeirio'n bennaf at y da byw a gedwir i ddibenion addysgol. Ni chaiff ei brynu gyda'r bwriad i'w ailwerthu.

14 Buddsoddiadau Cyfredol

	GRŴP 2018 £'000	Coleg 2018 £'000	GRŴP 2017 £'000	Coleg 2017 £'000
Adneuon tymor byr	532	532	1,528	1,528
	532	532	1,528	1,528

Mae'r Grŵp wedi buddsoddi mewn un cyfrif (2017: 2 gyfrif) sy'n gofyn am rybudd o 95 diwrnod i gael mynediad at yr arian.

15 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn

	GRŴP 2018 £'000	Coleg 2018 £'000	GRŴP 2017 £'000 Ail-ddatganwyd	Coleg 2017 £'000 Ail-ddatganwyd
Benthyciadau banc	341	341	518	518
Taliadau masnachol	586	586	701	701
Trethiant arall a nawdd cymdeithasol	1,610	1,610	1,638	1,638
Croniadau ac incwm gohiriedig	7,099	6,915	4,913	4,722
Incwm gohiriedig – cyfalaf gan y llywodraeth	2,127	2,127	2,154	2,154
	11,763	11,579	9,924	9,733

Mae tâl gwyliau crynodol o £1,551K (2017: £1,097K) wedi'i gynnwys yn y croniadau

Addasiad mewn perthynas â'r flwyddyn flaenorol

Cafodd yr elfen grantiau cyfalaf gohiriedig o £2,154,000 a gynhwyswyd yn y ffigwr cymharol ar gyfer 2017 fel swm a oedd yn ddyledus ymhen blwyddyn ei ail-ddynodi ar y sail honno. Yn sgil hyn, gwelir cynnydd o £2,154,000 mewn Credydwyr (y symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn), o £7,770,000 i £9,924,000 yn achos y Grŵp ac o £7,579,000 i £9,733,000 yn achos y Coleg, a lleihad cyfatebol yn y Credydwyr (y symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn), sef o £50,141,000 i £47,987,000 (Y Grŵp a'r Coleg).

16 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn

	GRŴP 2018 £'000	Coleg 2018 £'000	GRŴP 2017 £'000	Coleg 2017 £'000
Benthyciadau banc	780	780	1,139	1,139
Incwm gohiriedig	718	718	897	897
Incwm gohiriedig – cyfalaf gan y llywodraeth	48,867	48,867	45,951	45,951
	50,365	50,365	47,987	47,987

17 Benthyciadau banc a gorddrafftiau

Mae'r benthyciadau banc a'r gorddrafftiau i'w had-dalu fel a ganlyn:

	Y Grŵp a'r Coleg 2018 £'000	Y Grŵp a'r Coleg 2017 £'000
Ymhen blwyddyn neu lai	341	518
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	313	416
Rhwng dwy a phum mlynedd	467	723
Ymhen pum mlynedd neu fwy	-	-
Cyfanswm	1,121	1,657

Benthycwyd cyfanswm o £971k gan fanciau ar raddfeydd sefydlog o 10.19%, 8.34% a 6.54%, ac maent i'w had-dalu fesul rhandaliadau rhwng mis Awst 1996 a mis Ionawr 2018. Mae cyfanswm y benthyciadau gan fanciau wedi'i sicrhau drwy gyfrwng taliad sefydlog ar dir ac adeiladau rhydd-ddaliadol y Grŵp.

Yn ogystal, ceir benthyciad 'Buddsoddi i Arbed'. Cyfanswm y benthyciad yw £150,000, ac mae'n ddi-log ac i'w ad-dalu fesul rhandaliadau rhwng 2017 a 2022.

18 Darpariaethau Eraill

	Pensiynau Uwch £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Awst 2017	3636	3,636
Trosglwyddwyd o'r cyfrif incwm a gwariant	78	78
Ar 31 Gorffennaf 2018	**3,714**	**3,714**

Mae'r ddarpariaeth o ran pensiynau cynnar yn ymwneud â chostau staff sydd eisoes wedi gadael eu swyddi gyda'r Grŵp. Cyfrifwyd y ddarpariaeth yn unol â chylchlythyr 2017/2018 ynghylch Cyfarwyddiadau Cyfrifyddu. Cyfrifwyd y ddarpariaeth yn dilyn y newid yn nhybiaeth y CPI ynghylch y cynnydd mewn pensiynau.

Y brif dybiaeth o ran y cyfrifo hwn yw:

	2018	2017
Cyfradd llog net	**1.00%**	**1.00%**

19 Digwyddiadau wedi'r cyfnod adrodd

O ran Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP) cyfartal i ddynion a merched, gweler tudalen []

20 Rhwymedigaethau o ran buddion wedi'u diffinio

Mae'r Grŵp yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn penodol: Cynllun Pensiwn Athrawon Cymru a Lloegr (TPS) i staff academaidd a staff perthynol a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) i staff nad ydynt yn addysgu, a reolir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r ddau'n gynlluniau buddion diffiniedig.

Cyfanswm costau pensiwn am y flwyddyn		**2018 £'000**		**2017 £'000**
Cynllun Pensiwn Athrawon: y cyfraniadau a dalwyd		2,984		2,982
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:				
Y cyfraniadau a dalwyd	3,329		2,932	
Cost FRS 102 (28)	2,143		1,783	
Y gost i'r Datganiad ynghylch Incwm Cynhwysfawr		5,472		4,715
Cost pensiwn uwch i'r Datganiad ynghylch Incwm Cynhwysfawr		78		(201)
Cyfanswm cost pensiynau am y flwyddyn		**8,534**		**7,496**

Caiff costau pensiwn eu hasesu yn unol â chyngor actiwarïaid cymwys annibynnol. Cafodd y TPS ei brisio ddiwethaf gan yr actiwarïaid ar 31 Mawrth 2012 a chafodd y LGPS ei brisio ddiwethaf gan yr actiwarïaid ar 31 Mawrth 2016.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n ddyledus nac wedi'u rhagdalu naill ar ddechrau nac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cynllun Pensiwn Athrawon

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) yn gynllun statudol a seiliwyd ar gyfraniadau a buddion diffiniedig. Caiff y TPS ei weithredu'n unol â Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2010, ac o 1 Ebrill 2016, yn unol â Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2016. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i athrawon mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill, gan gynnwys academïau, a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Gall athrawon mewn llawer o ysgolion annibynnol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ac athrawon a darlithwyr mewn rhai sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch hefyd fod yn gymwys i fod yn aelodau. Daw athrawon a darlithwyr llawn amser yn aelodau o'r cynllun yn awtomatig, ac o 1 Ionawr 2007, daw athrawon a darlithwyr rhan-amser hefyd yn aelodau o'r cynllun yn awtomatig wedi iddynt gael eu penodi neu newid eu contract. Gall athrawon a darlithwyr ddewis cael eu heithrio o'r TPS.

Cyfrif Cyllidebu a Phrisio Pensiwn Athrawon

Er bod athrawon a darlithwyr yn cael eu cyflogi gan amrywiol gyrff, caiff eu pensiwn ymddeol a buddion pensiwn eraill, fel y darparwyd yn rheoliadau Deddf Blwydd-daliadau 1972, eu talu o arian cyhoeddus a ddarperir gan y Senedd. O dan y TPS, nad yw'n cael ei gyllido, mae athrawon yn cyfrannu ar sail 'talu wrth fynd', a chaiff cyfraniadau gweithwyr eu credydu i'r Trysorlys yn unol â threfniadau a lywodraethir gan y Ddeddf uchod. Yn ôl Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2010, rhaid cadw cofnod blynyddol, sef y Cyfrif Cyllidebu a Phrisio Pensiwn Athrawon, o dderbyniadau a gwariant (yn cynnwys cost cynnydd mewn pensiynau). O 1 Ebrill 2001, credydwyd gwir gyfradd adennill i'r Cyfrif. Mae hyn yr un peth â rhagdybio bod balans y Cyfrif yn cael ei fuddsoddi mewn buddsoddiadau tybiannol sy'n cynhyrchu'r gyfradd adennill real honno.

20 Rhwymedigaethau o ran buddion wedi'u diffinio (parhad)

Prisio'r Cynllun Pensiwn Athrawon

Cynhaliwyd yr adolygiad actiwaraidd diwethaf o'r TPS ar 31 Mawrth 2012, yn unol â'r Cyfarwyddiadau ynghylch Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (Prisiadau a Chapio Costau Cyflogwyr) 2016. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar y prisio gan yr Adran Addysg (yr Adran) 9 Mehefin 2016. Dyma brif ganlyniadau'r prisio a'r ymgynghori a wnaed wedi'r prisio:

- pennwyd mai cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr fyddai 16.48% o'r cyflog pensiynadwy (yn cynnwys ardoll o 0.08% am weinyddu);
- roedd cyfanswm rhwymedigaethau'r cynllun hyd y dyddiad prisio yn £191.5 biliwn, ac roedd yr asedau tybiannol yn £176.6 biliwn, gan roi diffyg tybiannol o £14.9 biliwn mewn perthynas â gwasanaeth blaenorol;
- wrth brisio yn y dyfodol, rhoddir cap o 10.9% o'r cyflog pensiynadwy ar y cyfraniadau sy'n daladwy gan gyflogwyr

Mae copi llawn o'r adroddiad prisio a'r dogfennau cysylltiedig ar wefan y Cynllun Pensiwn Athrawon:
https://www.teacherspensions.co.uk/news/employers/2016/06/publication-of-the-valuation-report.aspx

Cyfanswm y costau pensiwn a dalwyd i'r TPS yn ystod y flwyddyn oedd £2,984,000 (2017: £2,982,000)

FRS 102 (28)

Yn ôl y diffiniadau a nodir yn FRS 102 (28.11), mae'r TPS yn gynllun pensiwn aml-gyflogwr. Ni all y Grŵp adnabod ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol yn y cynllun.

Felly, mae'r Coleg wedi manteisio ar yr eithriad yn FRS 102 ac wedi trin ei gyfraniadau i'r cynllun fel pe bae'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae'r Coleg wedi egluro uchod y wybodaeth sydd ar gael am y cynllun a'r goblygiadau i'r Coleg o ran y cyfraddau cyfrannu a ragwelir.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r LGPS yn gynllun buddion diffiniedig ac mae ei asedau'n cael eu cadw mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Cyfanswm y cyfraniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2018 oedd £4,241,000 (2017 - £3,839,000) gyda'r cyflogwyr yn cyfrannu cyfanswm o £3,329,000 (2017 - £2,932,000) a'r gweithwyr yn cyfrannu cyfanswm o £978,000 (2017 - £907,000). Ar 1 Ebrill 2014, newidiodd cyfradd gyfrannu'r gweithwyr i fod yn ddibynnol ar eu cyflog fel y dangosir isod:

20 Rhwymedigaethau o ran buddion wedi'u diffinio (parhad)

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Newidiadau i'r bandiau

Y Band o 1 Ebrill 2018 Tâl Amser Cyflawn	Y Band o 1 Ebrill 2017 Tâl Amser Cyflawn	Y Gyfradd Gyfrannu
£0-£14,100	£0-£13,700	5.5%
£14,101 - £22,000	£13,701 - £21,400	5.8%
£22,001 - £35,700	£21,401 - £34,700	6.5%
£35,701 - £45,200	£34,701 - £43,900	6.8%
£45,201 - £63,100	£43,901 - £61,300	8.5%
£63,101 - £89,400	£61,301 - £86,800	9.9%
£89,401 - £105,200	£86,801 - £101,200	10.5%
£105,201 - £157,800	£101,201 - £153,300	11.4%
Mwy na £157,801	Mwy na £153,301	12.5%

Prif Dybiaethau'r Actiwari

Seiliwyd y wybodaeth ganlynol ar brisiad actiwaraidd llawn o'r Gronfa ar 31 Mawrth 2016 a ddiweddarwyd hyd at 31 Gorffennaf 2018 gan actiwari annibynnol cymwys.

	Ar 31 Gorffennaf 2018	Ar 31 Gorffennaf 2017
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	2.10%	2.20%
Darpar gynnydd mewn pensiynau	2.10%	2.20%
Cyfradd ddisgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	2.80%	2.70%
Cyfnewid pensiynau am gyfandaliadau	50%	50%

Cyfnewid
Mae'r actiwari wedi cynnwys lwfans er mwyn i rai a fydd yn ymddeol yn y dyfodol ddewis cymryd 50% o'r uchafswm arian di-dreth, hyd at derfynau'r HMRC yn achos gwasanaeth cyn Ebrill 2008 a 75% o'r uchafswm arian di-dreth yn achos gwasanaeth wedi mis Ebrill 2008.

Mae'r tybiaethau cyfredol ynghylch marwolaethau yn cynnwys lwfans digonol ar gyfer gwelliannau yn y cyfraddau marwolaeth yn y dyfodol. Tybir y bydd y rhai a fydd yn ymddeol yn 65 yn byw am y niferoedd canlynol o flynyddoedd wedi hynny:

	Ar 31 Gorffennaf 2018 blynyddoedd	Ar 31 Gorffennaf 2017 blynyddoedd
Yn ymddeol heddiw		
Dynion	21.40	21.40
Merched	23.80	23.80
Yn ymddeol mewn 20 mlynedd		
Dynion	22.80	22.80
Merched	25.50	25.50

20 Rhwymedigaethau o ran buddion wedi'u diffinio (parhad)

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (parhad)

Dyma gyfran y Grŵp o asedau Cronfa Bensiwn Cyngor Gwynedd (amcangyfrifir bod cyfran y Grŵp yn 1.5%) a'r gyfradd adennill ddisgwyliedig:

	Gwerth Teg ar 31 Gorffennaf 2018 £'000	Gwerth Teg ar 31 Gorffennaf 2017 £'000
Cyfanswm gwerth yr asedau ar y farchnad	105,249	95,007
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun		
– wedi'u cyllido	(104,722)	(101,931)
– heb eu cyllido	(194)	(240)
Diffyg yn y cynllun	333	(7,164)

Mae'r adenillion disgwyliedig ar asedau wedi'u seilio ar yr adenillion sy'n ddisgwyliedig o fuddsoddiadau hir dymor yn achos pob dosbarth asedau ar ddechrau'r flwyddyn.

Dyma'r symiau a gydnabyddir mewn perthynas â'r cynllun yn y Datganiad ynghylch Incwm Cynhwysfawr:

	2018 £'000	2017 £'000
Symiau a gynhwysir yn y costau staffio		
Costau gwasanaeth cyfredol	5472	4709
Costau gwasanaeth blaenorol	0	24
Cyfanswm	5472	4733
Symiau a gynhwysir yn yr incwm o fuddsoddiadau		
Incwm llog net	2821	2,878
	2821	2878
Symiau a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall		
Adenillion ar asedau'r cynllun pensiwn	4,978	4,421
Colledion profiad yn deillio o rwymedigaethau buddion wedi'u diffinio	-	-
Newidiadau yn y tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	4,884	22,720
Y swm a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall	9,862	27,141

20 Rhwymedigaethau o ran buddion wedi'u diffinio (parhad)

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (parhad)

Symudiad yn (rhwymedigaeth)/asedau'r buddion net diffiniedig yn ystod y flwyddyn

	2018 £'000	2017 £'000
(Diffyg) yn y cynllun ar 1 Awst	(7,164)	(31,739)
Symudiad yn ystod y flwyddyn:		
Costau gwasanaeth cyfredol	(5,472)	(4,709)
Cyfraniadau cyflogwr	3,329	2,950
Llog net ar y (rhwymedigaeth)/ased ddiffiniedig	(222)	(807)
Enillion actiwaraidd	9,862	27,141
Buddion diffiniedig net asedau/(rhwymedigaeth) ar 31 Gorffennaf	333	(7,164)

Cysoni Asedau a Rhwymedigaethau

	2018 £'000	2017 £'000
Newidiadau yng ngwerth presennol rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio		
Rhwymedigaethau o ran buddion wedi'u diffinio ar ddechrau'r cyfnod	102,171	117,989
Costau gwasanaeth cyfredol	5,472	4,709
Cost llogau	2,821	2,878
Cyfraniadau gan aelodau'r Cynllun	979	905
Enillion a cholledion profiad yn deillio o rwymedigaethau buddion wedi'u diffinio	(4,884)	(22,720)
Amcangyfrif o'r buddion a dalwyd	(1,643)	(1,614)
Cwtogiadau a setliadau	-	24
Rhwymedigaethau o ran buddion wedi'u diffinio ar ddiwedd y cyfnod	104,916	102,171
Cysoni Asedau		
Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod	95,007	86,250
Llogau ar asedau'r cynllun	2,599	2,095
Adenillion ar asedau'r cynllun	4,978	4,421
Cyfraniadau cyflogwr	3,329	2,950
Cyfraniadau gan aelodau'r Cynllun	979	905
Amcangyfrif o'r buddion a dalwyd	(1,643)	(1,614)
Asedau ar ddiwedd y cyfnod	105,249	95,007

Amcangyfrifir mai £3,280,000 fydd gwerth cyfraniadau'r cyflogwr am y flwyddyn a ddaw i ben 31 Gorffennaf 2019. Gwerth presennol rhwymedigaethau heb eu hariannu yw £194,000 (2017 - £240,000).